# Crynodeb o'r Rheoliadau a'r Arolygiadau Mewnol

# **Adroddiad Sicrwydd Blynyddol**



2024 - 2025

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.*
*This document is also available in Welsh. See Welsh page on our website.*

Dod o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Adran 1 Crynodeb o’r Rheoliadau a’r Arolygiadau Mewnol 2024/25

## Archwilio Cymru

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Heb ei Drefnu: Llif Allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru<br><br>Ebrill 24 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[Rhanbarth Gogledd Cymru - Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty]<br><br>**Argymhelliad/Cynigion ar gyfer Gwella:**<br><br>**Gwella hyfforddiant ac arweiniad**<br><br>**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddatblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i egluro i'r staff i gyd sut y dylai'r broses gynllunio rhyddhau cleifion weithio yn y rhanbarth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylai nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau yn eglur, yn ogystal â disgwyliadau, gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus.<br><br>**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd a’r awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i rannu canllawiau cynllunio rhyddhau i bob aelod o staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys staff sy'n gweithio dros dro, a gefnogir gan raglen barhaus o hyfforddiant gloywi a hyfforddiant sefydlu i staff newydd.<br><br>**Gwella cydymffurfiaeth â pholisïau ac arweiniad**<br><br>**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgorffori cylch rheolaidd o waith archwilio i asesu effeithiolrwydd a chysondeb y broses o gymhwyso polisïau rhyddhau ac arweiniad, gan gynnwys cymhwyso Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA).<br><br>**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu rheolyddion i atal staff rhag ychwanegu cleifion at sawl rhestr aros, e.e. ar gyfer ail-alluogi, pecynnau gofal cartref a gofal preswyl er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion yn gyflym, waeth beth yw'r angen. Bydd hyn yn sicrhau mai’r unigolion y mae angen y gwasanaethau arnynt yn unig sydd ar y rhestrau aros perthnasol. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Hydref 24<br><br>Hydref 24<br><br>Tachwedd 24 | **COG – OREN**<br><br>Rhywfaint o gynnydd arwyddocaol ond mae gwaith i weithredu'r polisi rhyddhau cleifion yn parhau.<br><br>Mae'r diweddariad a ddarperir isod wedi'i ddatblygu ar lefel ranbarthol ar gyfer ei ddefnyddio ar draws pob sefydliad partner.<br><br>**A1, A8** Mae'r Polisi Rhyddhau o'r Ysbyty bellach wedi'i gwblhau ac mae'n mynd drwy Broses Lywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Bu ymgysylltiad â staff gweithredol yr Awdurdod Lleol, yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Ranbarthol a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru. Mae'r Polisi Rhyddhau o'r Ysbyty yn cynnwys canllawiau ar ryddhau claf pan nad yw’n awyddus i gael ei ryddhau, Dewis a siartiau llif er mwyn gallu cyfeirio atyn nhw’n hawdd<br><br>**A2** Mae'r Polisi Rhyddhau o'r Ysbyty yn cynnwys canllawiau ar ryddhau claf pan nad yw’n awyddus i gael ei ryddhau, Dewis a siartiau llif er mwyn gallu cyfeirio atyn nhw’n hawdd. Mae ffurflenni rhyddhau electronig yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae dau Gydlynydd Optimeiddio Llif Cleifion wedi'u penodi ac maen nhw wrthi'n adolygu gwybodaeth yn ymwneud ag hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i gefnogi dysgu ehangach / wedi'i adnewyddu ar draws grwpiau staff.<br><br>**A3** Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio a bydd tîm cenedlaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ogledd Cymru yn edrych arno.<br><br>**A4** Ni wnaed cynnydd ar y gwaith hwn fel y bwriadwyd ond bydd yn rhan o Raglen waith Hwyluswyr Optimeiddio Llif am y chwe mis nesaf. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **Sicrhau diogelwch cleifion wrth aros am becynnau gofal**<br><br>**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol cyn i gleifion gael eu hanfon adref, pan fo angen cymorth parhaus ar y cleifion hynny yn eu cartref eu hunain, a phan nad yw cymorth o'r fath ar waith adeg eu rhyddhau.<br><br>**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod dulliau ar waith i fonitro cleifion sy'n cael eu hanfon adref heb ofal cymdeithasol parhaus wedi'i drefnu yn gyson ac i uwchgyfeirio materion i'r gwasanaeth priodol pan fo angen.<br><br>**Gwella ansawdd a rhannu gwybodaeth**<br><br>**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r holl aelodau staff perthnasol yn ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sy'n cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach â chefnogaeth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli.<br><br>**A8** Dylai'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau cadw cofnodion drwy:<br>• sicrhau bod y staff i gyd sy'n ymwneud â threfniadau rhyddhau yn deall pwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion i gefnogi trefniadau rhyddhau effeithiol.<br>• sefydlu rhaglen o archwiliadau nodiadau achos sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith cadw cofnodion.<br><br>**A9** Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol weithredu ffyrdd y gellir rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i gysylltu'n ehangach â systemau sefydliadol ac yn y pen draw datrysiadau TG ar y cyd. | | | **A5** Mae'r broses wedi'i nodi yn y Polisi Rhyddhau o'r Ysbyty newydd a chyfeirir ati yn y siartiau llif hawdd eu darllen sy'n cael eu datblygu.<br><br>**A6** Bydd achosion gwael o drefniadau rhyddhau yn cael eu nodi yn rhan o'r Grwpiau Gwella Trefniadau Rhyddhau sydd bellach wedi'u sefydlu ledled Rhanbarth Gogledd Cymru. Mae wedi'i hen sefydlu yn y gorllewin, ac mae'r dysgu eisoes wedi'i rannu.<br><br>**A7** Mae rhaglen wedi bod i godi ymwybyddiaeth staff y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn cael eu cyfeirio at ffynonellau cymorth a chefnogaeth priodol.<br><br>**A9** Y gobaith yw, ym mis Ebrill, y bydd data Oedi mewn Llwybrau Gofal a adroddwyd yn genedlaethol ar gael i bob Awdurdod Lleol trwy blatfform a rennir a fydd yn caniatáu dehongli a dadansoddi'r manylion sy'n ymwneud â'r rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty yn well.<br><br>**A10** Mae cyllid Ymhellach Ynghynt ac yn fwyaf diweddar cyllid Her 50 diwrnod wedi arwain at fwy o gapasiti o fewn timau ailalluogi. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy recriwtio unigolion i swyddi gweithwyr ailalluogi ychwanegol. Mae adleoli staff gofal cymdeithasol i swyddi cydlynwyr gofal yn yr ysbyty i gefnogi prosesau rhyddhau hefyd wedi arwain at ryddhau cleifion yn gyflymach.<br><br>Mae cynnydd yng nghapasiti'r Timau Adnoddau Cymunedol a'r timau gofal yn y cartref wedi'i gyflawni trwy recriwtio staff gwaith cymdeithasol asiantaeth, staff Therapi Galwedigaethol asiantaeth ac oriau broceriaeth gofal yn y cartref ychwanegol.<br><br>Mae gofal yn y cartref ychwanegol wedi'i sicrhau mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae diffyg capasiti mewn ardaloedd gwledig wedi bod yn effeithio'n negyddol ar drefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae cyllid her 50 diwrnod wedi golygu bod modd talu ffi uwch ar gyfer teithiau staff i gefnogi'r defnydd o becynnau gofal mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti**<br><br>**A10** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd a’r awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu atebion ar y cyd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yng nghapasiti'r gwasanaeth, yn benodol, gofal yn y cartref a gwasanaethau ailalluogi a fyddai'n galluogi rhyddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain yn gyflymach.<br><br>**Gwneud y defnydd gorau posibl o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**<br><br>**A11** Dylai'r Bwrdd Iechyd a’r awdurdodau lleol, drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, brif ffrydio cynlluniau hirsefydlog sy’n cael eu hariannu drwy’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac sy'n cael eu hystyried yn wasanaethau craidd.<br><br>**A12** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gytuno ar broses ar gyfer defnyddio unrhyw arian llithriant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwariant o’r fath yn darparu gwerth a budd priodol.<br><br>**A13** Er mwyn helpu i lywio’r broses o wneud penderfyniadau a chael trafodaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol:<br><br>• sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad rheolaidd at ddangosydd perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol a phrydlon o'r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal heb ei drefnu yn y Bwrdd Iechyd a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau gofal; a<br>• defnyddio trefniadau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cofrestr risg ranbarthol sy'n dwyn ynghyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau cleifion. | | | Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn datblygu modelau gwahanol ar gyfer gofal yn y cartref gan ddefnyddio mwy o feicro-ddarparwyr.<br><br>Mae rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi'i briodoli i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwireddu'r ymyriadau sy'n ymwneud â'r cohort risg uchel 0.5% a’r broses o drosglwyddo yn ôl i’r gymuned a gwelyau asesu.<br><br>Mae'r cyflawniadau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad hwn yn cael eu holrhain ac mae’r allbynnau'n cael eu cofnodi yn rhan o'r fenter cyllid 50 diwrnod.<br><br>Bydd adroddiad diwedd tymor yn cael ei ddrafftio a fydd yn amlinellu llwyddiant neu fethiant buddsoddiadau o'r fath ar ôl 31.3.25 at ddibenion adrodd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.<br><br>**A11** Yn dilyn dadansoddiad ychwanegol yn 2024/25, daethpwyd i'r casgliad bod £26.9 miliwn o fuddsoddiad mewn cynlluniau Timau Adnoddau Cymunedol prif ffrwd.<br><br>**A12** Yn dilyn adolygiad mewnol o'r broses sy’n rhoi gwybod am newidiadau, canfuwyd ei bod yn gweithio'n dda wrth iddi nodi:<br>• y rhesymeg dros newid y defnydd o gyllid<br>• sut mae’r cyllid yn cael ei adleoli a pha wasanaethau sy’n cael eu heffeithio a,<br>• trefniadau llywodraethu ynghylch gwneud penderfyniadau yn ymwneud â llithriant<br><br>O ganlyniad i hyn, bydd yn parhau am y ddwy flynedd nesaf h.y. hyd at ddiwedd rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.<br><br>**A13** Mae'r weithred hon wedi'i disodli gan her 50 diwrnod Llywodraeth Cymru sydd wedi'i rhoi ar waith ledled y genedl ers 11.11.24.<br><br>Caiff data Oedi mewn Llwybrau Gofal cysylltiedig ac adroddiad 50 diwrnod wedi'i ddiweddaru ei gyflwyno i Grŵp Arweinyddiaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Hysbysu Gofal Iechyd) bob mis ac i’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol pan fydd yn cyfarfod bob yn ail fis.<br><br>Mae’r dewisiadau ar gyfer cyd-gadeirio Bwrdd y Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng yn cael eu hystyried.<br><br>Caiff y Gofrestr Risg ei thrafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gweithredol, mae angen uwchgyfeirio risgiau i sylw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhan o'r ddeialog barhaus ynghylch: Oedi mewn Llwybrau Gofal |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwella goruchwyliaeth ac effaith**<br><br>**A14** Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth sy'n nodi cynnydd a gweithgareddau a mentrau sylweddol sy'n cael eu cynnal i gefnogi trefniadau rhyddhau effeithiol a phrydlon ar gael yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol a phartneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau a mentrau a gyflawnir yn unigol ac ar y cyd, o fewn a thu hwnt i strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, eu heffaith a sut maen nhw'n cyfrannu ar y cyd at fynd i'r afael â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu buddsoddi yn y ffordd orau bosibl.<br><br>Ymgorffori dysgu o gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau cleifion.<br><br>**A15** Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol sicrhau bod dulliau ar waith i weithredu'r hyn a ddysgwyd o gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau cleifion, fel y Digwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth, ac i gynnal goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau bod y dysgu'n cael ei weithredu.<br><br>**A16** Dylai'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau neu bryderon andwyol sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion drwy:<br><br>• fynd i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon andwyol sy'n bodoli o hyd, gan gyfathrebu'n glir â'r awdurdod lleol perthnasol; a<br>• sicrhau bod dull cyson o adrodd ar bryderon a digwyddiadau andwyol sy'n ymwneud â rhyddhau ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. | | | **A14** Y gobaith yw y bydd data Oedi mewn Llwybrau Gofal a adroddir yn genedlaethol ar gael i bob awdurdod lleol ym mis Ebrill trwy blatfform a rennir.<br><br>Mae angen gwaith ychwanegol yn genedlaethol ar gasglu a rhannu data sy'n ymwneud â Gofal Cymunedol Uwch. Ymunodd partneriaid â thrafodaeth hunanasesu ar 27 Chwefror – aros am adborth gan y tîm cenedlaethol.<br><br>**A15** Cyflwynir adroddiad her 50 diwrnod i'r Grŵp Arweinyddiaeth (gan gynnwys cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol) i rannu arferion da a nodi arferion gwella i'w cyflawni'n gyson yn y rhanbarth.<br><br>**A16** Mae hyn wedi'i hen sefydlu yn y gorllewin ac wedi'i roi ar waith yn y canolbarth a'r dwyrain. Maen nhw bellach yn cael eu hadnabod fel grwpiau gwella trefniadau rhyddhau. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl. Sesiynau ymwybyddiaeth i gartrefi gofal / darparwyr yn mynd rhagddynt. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o’r Strategaeth Ddigidol<br><br>Gorffennaf 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>Cyngor Sir y Fflint – Adolygiad o’r Strategaeth Ddigidol I Archwilio Cymru<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer Gwella:**<br><br>**Dull cydweithio**<br><br>**A1** Er mwyn sicrhau ei fod yn nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian ei ddull strategol o ymdrin â’i strategaeth ddigidol, dylai'r Cyngor nodi'r sefydliadau y gallai gydweithio â nhw wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol ac asesu manteision posibl y cyfleoedd y mae'n eu nodi.<br><br>**Deall goblygiadau adnoddau ei strategaeth ddigidol**<br><br>**A2** Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf ac er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei dull strategol, dylai'r Cyngor nodi goblygiadau tymor canolig a hirdymor o ran adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Gorffennaf 24<br><br>Gorffennaf 24<br><br>Mehefin 24 | COG – OREN<br><br>**A1** Mae'r Cyngor yn bwriadu cynhyrchu map o'i bartneriaid presennol a sefydliadau eraill y gallai gydweithio â nhw'n benodol wrth gyflawni amcanion cyflwyno ei Strategaeth Ddigidol.<br><br>Bydd y map hwn yn nodi manteision gweithio gyda'r sefydliadau hyn a bydd yn cael ei rannu'n gorfforaethol.<br><br>Trwy Fwrdd Data a Thechnoleg Digidol Gogledd Cymru, mae gweledigaeth gyffredin wedi'i diffinio a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r weledigaeth yn gosod y fframwaith strategol i alluogi gwasanaethau integredig, di-dor a gwella iechyd a lles yng Ngogledd Cymru, a gyflawnir trwy bedwar ffrwd waith â blaenoriaeth. Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud yng nghyd-destun y fframwaith strategol rhanbarthol hwn i ddatblygu map partneriaeth ddigidol leol yn benodol ar gyfer Sir y Fflint.<br><br>COG – GWYRDD<br><br>**A2** Bydd y Cyngor yn gwneud newidiadau i’w broses achos busnes ar gyfer mentrau Digidol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu nodi goblygiadau o ran adnoddau a gwerth am arian yn well.<br><br>Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r wybodaeth a gasglwyd yn argymhellion dau, tri a phedwar i lywio'r fersiwn nesaf o Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn 2026.<br><br>Cafodd yr achos busnes a'r prosesau gweithredol eu diwygio ddiwedd 2024 i helpu i sicrhau y gall y Cyngor asesu gwerth am arian mewn ffordd strwythuredig. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | **Nodi a monitro arbedion penodol**<br><br>**A3** Er mwyn helpu i fonitro i ba raddau y mae prosiectau digidol a'i ddull strategol cyffredinol o ymdrin â’r strategaeth ddigidol yn darparu gwerth am arian, dylai'r Cyngor nodi arbedion posibl sy'n gysylltiedig â phrosiectau digidol a monitro i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu cyflawni.<br><br>**Asesu a monitro effaith**<br><br>**A4** Er mwyn deall effaith gyffredinol ei strategaeth ddigidol yn well a monitro gwerth am arian, dylai'r Cyngor wella trefniadau ar gyfer mesur effeithiolrwydd ac effaith prosiectau digidol a'i ddull strategol yn gyffredinol. | | **COG – OREN**<br><br>**A3** Mwy o her yn ymwneud â nodi arbedion a fwriedir yn y Bwrdd Strategaeth Ddigidol.<br><br>Bydd y Cyngor yn sicrhau bod arbedion posibl o fewn prosiectau yn cael eu nodi'n gadarn o fewn y broses achos busnes. Bydd y Cyngor yn gwneud gwelliannau i'r templed Achos Busnes Strategaeth Ddigidol presennol i hwyluso hyn.<br><br>Rhoddir gwybod i’r Bwrdd Strategaeth Ddigidol am unrhyw fonitro a wneir drwy gydol prosiectau sy’n gysylltiedig â gwerth am arian ac arbedion. Bydd dogfennau a thempledi adroddiadau yn cael eu diwygio i gynnwys y gallu i adrodd ar dargedau perfformiad a thargedau arbedion.<br><br>Bydd y Cyngor yn adolygu prosiectau wedi'u cwblhau yn y Bwrdd Strategaeth Ddigidol gan ddefnyddio templed adroddiad terfynu sy'n nodi’r gwersi a ddysgwyd.<br><br>Gwnaed newidiadau i'r achos busnes i sicrhau y gellir nodi'r arbedion a fwriedir yn gywir. Mae mesurau monitro wedi'u datblygu a'u cynnig i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sgorio a'i olrhain.<br><br>Mae templedi adroddiadau wedi'u diweddaru yn cael eu llunio ar hyn o bryd er mwyn eu rhoi ar waith yn rhan o brosesau diwygiedig y Strategaeth Ddigidol yn gyffredinol. |
| | | | **COG – OREN**<br><br>**A4** Bydd y Cyngor yn llunio ac yn rhoi dogfennau safonol ar gyfer cynllunio prosiectau / amcanion ar waith yn ogystal â dogfennau adolygu a therfynu i'w defnyddio ar draws pob prosiect Strategaeth Ddigidol. Bydd dogfennau adolygu yn asesu cyllidebau, arbedion, boddhad cwsmeriaid, effaith a pherfformiad.<br><br>Mae dewisiadau’n cael eu gwerthuso yn rhan o adolygiad y Cyngor o'r Strategaeth Ddigidol a'i gwaith Trawsnewid Strategol arfaethedig. Bydd yn rhaid cytuno’n ffurfiol ar ddogfennau a’u mabwysiadu’n gorfforaethol ar gyfer pob prosiect, boed yn rhai digidol neu’n rhai nad ydynt yn ddigidol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Gosod Amcanion Lles<br><br>Mehefin 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>Gosod amcanion lles - Cyngor Sir y Fflint<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer Gwella:**<br><br>**A1** Pan fydd y Cyngor yn datblygu ei amcanion lles nesaf, dylai sicrhau eu bod nhw’n cael eu llywio gan farn amrywiaeth ei boblogaeth er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei lywio gan farn lawn y gymuned leol.<br><br>**A2** Wrth ddatblygu datganiadau lles yn y dyfodol, dylai'r Cyngor nodi sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at ddibenion cymryd camau i gyflawni ei amcanion er mwyn sicrhau bod y rhain o fewn eu cyrraedd.<br><br>**A3** Dylai'r Cyngor sicrhau, mewn prosesau gosod cyllideb yn y dyfodol neu wrth adnewyddu ei gynllun ariannol tymor canolig, eu bod nhw’n cyd-fynd yn glir ag amcanion lles y Cyngor, a bod eglurder ynghylch sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion lles.<br><br>**A4** Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor werthuso prosesau a nodi gwersi i'w dysgu, dylai ystyried ei drefniadau ar gyfer cadw a rheoli dogfennau sy'n nodi sut mae'n casglu ac yn storio gwybodaeth sy'n ymwneud â gosod amcanion lles a gwersi a ddysgwyd. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Medi 24<br><br>Medi 24<br><br>Medi 24 | **COG – OREN**<br><br>**A1** Bydd adolygiad canol y cynllun o Gynllun presennol y Cyngor (2023-28) yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn rhan o adolygiad canol y cynllun, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gwblhau, i sicrhau bod barn amrywiaeth poblogaeth Sir y Fflint yn cael ei hystyried a bod y cynllun yn cael ei lywio gan farn cymunedau lleol Sir y Fflint. Yn ogystal â hyn, mae'r Amcanion Lles eisoes yn rhan o’r cynlluniau busnes ar gyfer Portffolios. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad canol y cynllun yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i adolygu a chryfhau hyn.<br><br>**A2** Yn rhan o adolygiad canol y cynllun o Gynllun y Cyngor (2023-28) bydd y datganiad lles presennol yn cael ei adolygu ac, os oes angen, bydd yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru i ddatgan sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu wrth gyflawni'r Amcanion Lles.<br><br>**A3** Yn adolygiad canol y cynllun o Gynllun y Cyngor (2023-28) bydd aliniad â'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei nodi'n glir yn yr adolygiad. Bydd Amcanion Lles presennol y Cyngor yn cael eu hadolygu a'u diwygio, pan fo angen, i sicrhau eu bod nhw’n adlewyrchu’r ansicrwydd ariannol presennol (ac yn y dyfodol). Bydd cyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r Tîm Cyllid Corfforaethol yn rhan o'r adolygiad canol y cynllun yn ogystal ag adolygiadau blynyddol o Gynllun y Cyngor, er mwyn sicrhau bod unrhyw ansicrwydd ariannol yn cael ei amlygu, a allai effeithio ar gyflawni Amcanion Lles.<br><br>**A4** Mae dogfen gwersi a ddysgwyd wedi'i chreu i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer dysgu (a gwella) yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, cafodd ymarfer adolygu a mapio llawn o wybodaeth a dogfennaeth flaenorol yn ymwneud â gosod Amcanion Lles presennol (a blaenoriaethau) ei gwblhau yn rhan o'r archwiliad hwn. Mae trefniadau gwell ar gyfer cadw dogfennau a storio dogfennaeth hefyd wedi'u gwneud.<br><br>Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn cyfarfod bob deufis ag awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac yn mynd i grwpiau rhwydwaith Cymru gyfan bob chwarter i drafod meysydd pwnc allweddol ac i nodi / rhannu gwersi a ddysgwyd, cyfleoedd i wella ac arferion gorau. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol (Lleol)<br><br>Medi 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/cyngor-sir-y-fflint-adolygiad-cynaliadwyedd-ariannol<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br>**A1** Mae gwendidau o ran sut mae'r Cyngor yn nodi arbedion. Er mwyn newid hyn, dylai'r Cyngor:<br><br>1.1. weithio gyda swyddogion ac Aelodau i ddatblygu trefniadau ar gyfer nodi arbedion ar raddfa a all effeithio ar y bwlch cyllidebol a nodwyd o amrywiaeth o ffynonellau; a<br><br>1.2. datblygu a gweithredu trefniadau i nodi a gwerthuso effaith yr arbedion hyn ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Medi 24<br><br>Hydref 24<br><br>Tachwedd 24 | **COG – Amherthnasol**<br><br>Cytunwyd.<br>Fel sydd wedi'i nodi yn adroddiad diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo her gyllidebol enfawr o ganlyniad i ostyngiad sylweddol mewn cyllid cenedlaethol a maint y gostyngiadau mewn costau yn y gorffennol sydd wedi'u cymryd eisoes dros y degawd diwethaf.<br><br>Mae Rhaglen Drawsnewid wedi'i datblygu ac mae trefniadau llywodraethu a darparu adnoddau bellach wedi'u cytuno. Bydd y rhaglen yn cael ei blaenoriaethu a bydd y pwyslais cynnar yn cael ei roi ar fanteisio ar gyfleoedd i leihau costau mewn meysydd digidol, defnyddio asedau a gwasanaethau, er enghraifft. |
| Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (Cenedlaethol)<br><br>Rhagfyr 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/cynaliadwyedd-ariannol-llywodraeth-leol<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br>**Dim** - Gwnaed cysylltiadau â chanfyddiadau o adroddiadau Lleol | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | I'w gadarnhau<br><br>I'w gadarnhau<br><br>I'w gadarnhau | **COG – Amherthnasol**<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad, bydd yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith berthnasol a bydd yn mynd trwy'r broses adrodd/llywodraethu maes o law. |
| Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio<br><br>Chwefror 2025 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_planning_ervices%20report_final_cy.pdf<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**Rheoli Perfformiad a Risg**<br><br>**A1** Daethom ni o hyd i wendidau yn nhrefniadau monitro perfformiad ac adrodd y Cyngor o'r Gwasanaeth Cynllunio. Er mwyn sicrhau mwy o eglurder ac atebolrwydd, dylai'r Cyngor: | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mai 25<br><br>Mai 25<br><br>Mehefin 25 | **COG – OREN**<br><br>**A1** Pan gafodd y gwaith archwilio hwn ei gomisiynu, roedd y Portffolio yn ymwybodol o'n hanallu ni i ddarparu set ddata perfformiad gadarn i'w chyflwyno i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru. Deilliodd hyn o'r broses o symud i'n system swyddfa gefn newydd. Roedd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn y sefyllfa yr oedd y Portffolio ynddi. Cafodd Archwilio Cymru wybod am y sefyllfa hon cyn cynnal yr archwiliad hwn.<br><br>Erbyn mis Awst 2025 gallai'r system gynhyrchu set ddata gadarn a chywir a rhannwyd data perfformiad 2023/24 â Llywodraeth Cymru ynghyd â'r blynyddoedd blaenorol nad oeddent wedi'u cyflwyno. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | • Ailystyried cynnydd ar ganlyniadau'r system rheoli llwyth achosion ac adrodd i'r Aelodau;<br>• Adolygu camau adnabod, monitro a lliniaru risg syd wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg y gwasanaeth mewn cysylltiad ag adrodd ar berfformiad;<br>• Adolygu cynllun busnes y gwasanaeth i sicrhau bod camau gweithredu a mesuryddion perfformiad allweddol yn briodol i gefnogi amcanion corfforaethol, a sicrhau bod dulliau ar waith i fonitro a diweddaru'r cynllun yn rheolaidd; a<br>• Cyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr uchod i'r Cabinet a'r Pwyllgor Cynllunio.<br><br>**Polisïau**<br><br>**R2** Gwelsom fod cyfleoedd i wella pa mor glir yw polisïau a gweithdrefnau. Dylai'r Cyngor:<br><br>• Adolygu a diweddaru'r polisi gorfodi i helpu i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol;<br>• Rhannu polisi gorfodi wedi'i ddiweddaru i staff, aelodau a'r cyhoedd;<br>• Adolygu a diweddaru'r Cod Ymarfer Cynllunio sydd wedi'i gyhoeddi i sicrhau bod gan y cyhoedd ganllawiau cyson, cywir a chyfredol ar weithdrefnau ac arferion Cynllunio'r Cyngor. | | | Mae data Ch1 a Ch2 ar gyfer 2024/25 wedi'i rannu â'r Grŵp Strategaeth Gynllunio ynghyd â'r fformat ar gyfer yr adroddiad perfformiad blynyddol.<br><br>Bydd y Grŵp Strategaeth Gynllunio bellach yn parhau i dderbyn y data perfformiad chwarterol a bydd y data blynyddol yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.<br><br>Ar ôl derbyn ac adolygu'r set ddata perfformiad gyflawn, bydd ei chynnwys yng nghofrestr risg y Gwasanaeth (a/neu'r Cyngor) yn cael ei ystyried.<br><br>Ar ôl derbyn ac adolygu'r set ddata perfformiad gyflawn, bydd Cynllun Busnes y Portffolio yn cael ei adolygu i sicrhau bod mesurau addas wedi'u hymgorffori.<br><br>**A2** Roedd y Polisi Gorfodi Cynllunio yn destun adolygiad llawn a chynhwysfawr yn 2019.<br><br>Mae adolygiad y Polisi Gorfodi Cynllunio eisoes ar Raglen Waith y Grŵp Strategaeth Gynllunio.<br><br>Mae drafft o Bolisi Gorfodi diwygiedig yn y broses o gael ei gynhyrchu.<br><br>Bydd yn cael ei ddatblygu gyda'r Grŵp Strategaeth Gynllunio.<br><br>Caiff ei rannu wedyn â'r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi cyn ei fabwysiadu a'i gyhoeddi.<br><br>Disgwylir i'r Cod Ymarfer Cynllunio gael ei adolygu yn rhan o'r adolygiad blynyddol o Gyfansoddiad y Cyngor yn 2025. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **Trosolwg a Chraffu**<br>**A3** Canfuom ni fod cyfleoedd i wella meini prawf uwchgyfeirio, monitro a throsolwg ar gyfer sawl pwyllgor, er mwyn sicrhau bod aelodau'r pwyllgorau hynny'n deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dylai'r Cyngor:<br>• Adolygu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Strategaeth Gynllunio, Bwrdd y Rhaglen Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi; ac<br>• Egluro cyfrifoldebau pob pwyllgor ar gyfer adolygu perfformiad gwasanaeth er mwyn sicrhau meini prawf monitro, trosolwg ac uwchgyfeirio effeithiol. | | | **A3** Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgorau, Grwpiau a'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddan nhw'n cael eu hadolygu yn 2024/25.<br>Grŵp Strategaeth Cynllunio (adolygwyd diwethaf ar 15 Tachwedd 2024)<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi (11 Mehefin 2024)<br>Bwrdd Rhaglen Cynllunio a'r Amgylchedd a'r Economi (14 Tachwedd 2024)<br>Pwyllgor Cynllunio (hwyr)<br>Bydd adolygiadau'n atgoffa Aelodau o'u cyfrifoldebau yn gysylltiedig â monitro a goruchwylio perfformiad. |
| **Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**<br><br>**Mawrth 2025** | **Dolen at yr adroddiad:** [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Biodiversity%20-%20English.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Biodiversity%20-%20English.pdf)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br>**Egluro pa awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys dan y ddyletswydd**<br>**A1** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o awdurdodau cyhoeddus sy'n dod dan y ddyletswydd. Dylai wneud hyn cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd nesaf ar ddiwedd 2025. Dylai ddiweddaru'r rhestr pan fydd unrhyw awdurdod cyhoeddus newydd sy'n dod dan y ddyletswydd yn cael ei greu (gweler paragraffau 1.2 i 1.5).<br>**Monitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd**<br>**A2** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflwyno eu cynlluniau a'u hadroddiadau bioamrywiaeth iddi pan gânt eu cyhoeddi neu eu diwygio. Dylai hefyd gysylltu ag awdurdodau cyhoeddus os nad ydyn nhw wedi cyhoeddi'r cynlluniau a'r adroddiadau hyn fel y disgwylir (gweler paragraffau 1.35 i 1.40). | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau<br>I'w gadarnhau | **COG – Amherthnasol**<br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad, rydym ni'n paratoi ein hymateb, a bydd yn mynd drwy'r broses adrodd/llywodraethu maes o law. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| | **A3** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau sy'n rhoi golwg gyffredinol ar gamau gweithredu, cynnydd a chydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â'r ddyletswydd (gweler paragraffau 1.35 i 1.40). Dylai wneud hynny bob tair blynedd yn unol â'r cylch adrodd yn ôl diffiniad y Ddeddf.<br><br>**Gwella cynllunio ac adrodd**<br><br>**A4** Cyn y dyddiad cau nesaf ar gyfer adrodd ar ddiwedd 2025, dylai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl drwy gyhoeddi adroddiad a chynllun bioamrywiaeth o ansawdd uchel sy’n benodol i'w chamau gweithredu ei hun (gweler paragraffau 1.6 i 1.8).<br><br>**A5** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cyhoeddus i adolygu a diwygio canllawiau a gwybodaeth ategol sy’n bodoli eisoes ynghylch y ddyletswydd (gweler paragraffau 1.12 i 1.21). Dylai hyn gynnwys:<br>• ei integreiddio’n ddi-dor â deunydd a gynhyrchwyd i gefnogi’r newidiadau arfaethedig i gyfraith amgylcheddol;<br>• sicrhau y gall awdurdodau cyhoeddus heb arbenigedd penodol mewn bioamrywiaeth ei ddeall;<br>• ei deilwra ar gyfer gwahanol sectorau a gwahanol fathau o awdurdodau cyhoeddus;<br>• sicrhau bod y cyfan yn hawdd ei gyrraedd mewn un lle neu drwy un lle;<br>• egluro a oes gan ganllawiau rym statudol; a<br>• addasu a rhannu ei becyn gwaith bioamrywiaeth ei hun a'i ganllawiau asesu effaith fel adnoddau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus eraill.<br><br>**A6** Dylai Llywodraeth Cymru roi templed cynllunio i awdurdodau cyhoeddus. Dylai sicrhau bod modd addasu hwn ar gyfer y rhai sydd â chynlluniau annibynnol a'r rhai sydd wedi integreiddio cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth i gynlluniau ehangach (gweler paragraffau 2.6 i 2.8) | | | |

Rydym ni ar hyn o bryd yn aros am yr Adroddiadau a'r argymhellion terfynol ar gyfer adolygiadau canlynol Archwilio Cymru, felly bydd ymateb yn mynd drwy'r broses lywodraethu maes o law:

- Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau (Adroddiad Drafft wedi'i Dderbyn er mwyn cael Sylwadau)
- Llety Dros Dro (Adroddiad Terfynol i'w gyflwyno ym mis Mehefin 2025)

Roedd disgwyl i Archwilio Cymru gynnal yr adolygiadau canlynol ddiwedd 2024/25, fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cychwyn eto ac felly, byddan nhw’n cael eu cynnwys yn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol 2025/26:

- Trosolwg o’r Partneriaethau
- Trawsnewid

# Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Croes Atti<br>Hydref 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>https://digidol.arolygiaethgofal.cymru/cyfeiriadur/gwasanaeth/SIN-00009530-FVXD<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer Gwella:**<br>Dim. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Ionawr 25<br>Ionawr 25<br>I’w gadarnhau | **COG – Amherthnasol**<br><br>Adroddiad da iawn heb unrhyw argymhellion na hysbysiadau gwella. |

Mae dau arolygiad mewnol arall (a nodir isod) wedi digwydd yn ystod 2024/25, fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn yr adroddiad terfynol i gael sylwadau ar gyfer yr arolygiadau hyn eto:

- **Marleyfield House (Chwefror 2025)**
  Rydym ni’n aros am yr adroddiad drafft ar hyn o bryd i gael sylwadau, fodd bynnag, roedd yr adborth anffurfiol yn ardderchog ac ni chafwyd unrhyw argymhellion na hysbysiadau gwella.

- **Hafod (Mawrth 2025)**
  Dim adborth hyd yma

# Estyn

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau arolygu gan Estyn ynglŷn â Sir y Fflint fel awdurdod yn 2024/25 ac felly nid oes diweddariad ar y cynnydd.

# Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint; Arolygiad o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>Gorffennaf 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2024/07/ENG-Flintshire-YJS-Inspection-Report.pdf](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2024/07/ENG-Flintshire-YJS-Inspection-Report.pdf)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**Dylai partneriaid gofal iechyd Sir y Fflint:**<br><br>A1 Sicrhau bod y ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer plant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn diwallu eu hanghenion iechyd emosiynol a lles.<br><br>A2 Sicrhau bod plant sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu hasesu ar gyfer gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu a bod ganddynt ffordd benodol o gael gafael atynt.<br><br>**Dylai'r bwrdd rheoli gweithredol:**<br><br>A3 Barhau i herio'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac yn cynnig darpariaeth secondiad briodol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>A4 Adolygu fformat a phwrpas y Biwro a sicrhau bod ganddo'r mewnbwn perthnasol gan staff sydd wedi cwrdd â'r plentyn a'r asiantaethau angenrheidiol sy'n bresennol, fel bod datrysiadau y tu allan i'r llys yn bodloni anghenion y plant. | Cabinet:<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br><br>Medi 24<br><br>Ionawr 25 | COG – OREN<br><br>A1 Mae Bwrdd Rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wrthi’n adolygu’r ddarpariaeth iechyd gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a’r Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion. Mae cyllid wedi'i nodi i wella'r ddarpariaeth lles yn gyffredinol.<br><br>COG – OREN<br><br>A2 Mae Cadeirydd Bwrdd Rheoli’r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint) wedi ceisio ymgysylltu â Phrif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Betsi. Aros am gynllun gweithredu ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd.<br><br>COG – OREN<br><br>A3 Y Bwrdd Rheoli i barhau i ymgysylltu â Phennaeth Gwasanaeth Prawf yr Uned Rhyddhau Lleol, fodd bynnag, ni all y Gwasanaeth Prawf lenwi'r swydd secondiad tan fis Gorffennaf 2025, fan bellaf.<br><br>COG – GWYRDD<br><br>A4 Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol eraill yng Ngogledd Cymru i adolygu'r broses a'r polisi presennol ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ynghyd â chefnogaeth y Ganolfan Cyfiawnder ac Arloesi. Aros am gymeradwyaeth derfynol ar gyfer y polisi diwygiedig gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru. Ar y trywydd iawn ar gyfer ei gwblhau. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | **Dylai uwch reolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid:**<br><br>**A5** Gwella ansawdd cynllunio mewn gwaith achos ar ôl y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys er mwyn sicrhau gweithgarwch cynllunio o ansawdd uchel yn gyson, wedi'i deilwra i bob plentyn.<br><br>**A6** Cryfhau ansawdd a chysondeb trosolwg rheoli i sicrhau ei fod yn ysgogi gwelliannau o ran ansawdd yr ymarfer. | | | RAG – GWYRDD<br><br>**A5** Adolygiad a hyfforddiant wedi'u cynnal gydag ymarferwyr a rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid ac adnoddau cynllunio ychwanegol wedi'u darparu – Camau gweithredu wedi'u cwblhau.<br><br>RAG – GWYRDD<br><br>**A6** Adolygiad wedi'i gynnal gyda Thîm Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a systemau wedi'u diwygio ar waith er mwyn monitro – Camau gweithredu wedi'u cwblhau. |

# Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Gwybodaeth 2023/24<br><br>Gorffennaf 2024 | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[Adroddiad Blynyddol 2024](Adroddiad Blynyddol 2024)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer Gwella:**<br><br>Dim. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | Amherthnasol |

# Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio – Trosolwg o Awdurdodau Lleol Cyngor Sir y Fflint - Archwiliad bob Tair Blynedd<br><br>Mehefin 2024 | **Rheswm dros yr Adolygiad:**<br><br>Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i chi fod wedi rhoi sylw priodol a pharhaus i ofynion y ddeddfwriaeth a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, ac mae'n gofyn am eich cadarnhad ysgrifenedig o'r canlynol:<br><br>1. Mae unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn eich archwiliad diwethaf wedi cael eu datrys<br><br>2. Bydd eich Polisi RIPA yn cael adolygiad blynyddol ac yn cael ei gyflwyno i'ch Aelodau Etholedig i'w gymeradwyo (rhowch wybod pryd y cafodd hwn ei ddiwygio a'i rannu ag Aelodau yn fwyaf diweddar)<br><br>3. Bydd hyfforddiant cychwynnol a pharhaus yn cael ei roi i swyddogion allweddol, ynghyd â hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth i'r staff i gyd (nodwch y dyddiadau ers yr arolygiad diwethaf)<br><br>4. Mae Cofnod Canolog sy'n bodloni gofynion y Codau Ymarfer perthnasol ar waith<br><br>5. Mae gennych Brif Berchennog Cyfrifol, yn ogystal â Swyddogion Awdurdodi dynodedig<br><br>6. Mae gennych bolisïau a hyfforddiant sy'n ymdrin yn briodol â'r defnydd go iawn neu'r defnydd posibl o'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan o ymchwiliadau/ gweithgareddau gorfodi<br><br>7. Mae'r defnydd posibl (anfwriadol, heb awdurdod) o gyfryngau o'r fath yn cael ei fonitro gan reolwyr<br><br>8. Os ydych chi'n berchen ar system Teledu cylch caeëdig canol tref neu'n rheoli un o'r rhain, mae'n rhaid sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu a'i rheoli'n briodol yn unol ag ystyriaethau RIPA, gan gynnwys pan gaiff ei defnyddio gan drydydd parti fel yr heddlu lleol | Cabinet:<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br><br>Amherthnasol<br><br>Amherthnasol | **Ymateb gan y Comisiwn Pwerau Ymchwilio yn dilyn ei adolygiad:**<br><br>Diolch am yr ymateb manwl a defnyddiol i'r materion a nodwyd ym mhwyntiau 1 i 10.<br><br>Mae'n braf nodi, yn unol â pharagraff 4.47 y Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo, bod trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau y bydd eich polisi RIPA yn cael adolygiad blynyddol. Yn unol â'r paragraff hwn, dylai Aelodau Etholedig hefyd adolygu defnydd yr awdurdod o bwerau RIPA a gosod y polisi o leiaf unwaith y flwyddyn, gan sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn addas at y diben. O ystyried hyn, gwnewch y trefniadau angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn cael ei fabwysiadu yng nghynllun gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>O ran codi ymwybyddiaeth, rwy'n cefnogi cynlluniau i gyhoeddi eitem newyddion i'r gweithlu ynghylch RIPA ac i ddatblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth ehangach. Ni ellir diystyru pwysigrwydd hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth effeithiol wrth helpu i sicrhau cydymffurfiaeth a diogelu rhag gweithgarwch RIPA heb awdurdod.<br><br>Mae eich Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn cynnig arweiniad da a manwl ac yn nodi dull cadarn o reoli a goruchwylio unrhyw weithgarwch RIPA. Fodd bynnag, gellid diweddaru hyn mewn rhai meysydd. O ran asesiad Swyddogion Awdurdodi o gymesuredd, dylid ystyried adolygu'r adran ar dudalen 14 gan gyfeirio at y pedair elfen o gymesuredd sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4.7 o'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo, a'r pum elfen o gymesuredd ym mharagraff 3.6 o'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol.<br><br>O ran defnydd eich Cyngor o gamerâu teledu cylch caeëdig gan asiantaethau allanol e.e. yr heddlu; efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys manylion yn eich canllaw gweithdrefnol am unrhyw brosesau sydd ar waith i sicrhau bod mynediad at ddibenion cudd yn cael ei reoli mewn modd sy'n cydymffurfio. Er enghraifft, y gofyniad i'r Heddlu ddilyn eu gweithdrefnau RIPA eu hunain a darparu copi (wedi'i olygu os oes angen) o unrhyw awdurdodiad RIPA perthnasol. |

# Investigatory Powers Commissioners Office (IPCO)

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG |
|---|---|---|---|---|
| | 9. Rydych chi'n ymwybodol o NAFN a sut mae mynediad at ddata cyfathrebu yn cael ei reoli drwy IPCO<br><br>10. Mae eich awdurdod lleol yn cadw at ac yn cydnabod y Trefniadau Diogelu sydd wedi’u nodi yn y Codau Ymarfer perthnasol yn gysylltiedig â chadw, adolygu a dinistrio deunydd a gafwyd trwy ddefnyddio pwerau cudd.<br><br>Yn olaf, o ran defnyddio'r pwerau cudd sydd ar gael i chi, a allwch chi gadarnhau a ydych chi:<br><br>• Wedi defnyddio'r pwerau ers yr arolygiad diwethaf, neu'n bwriadu eu defnyddio nhw ar unwaith (neu'n gallu rhagweld eich hun yn gwneud hynny ar ôl i dîm neu strategaeth ymchwilio/gorfodi newydd gael ei ffurfio)<br><br>• Os ydych chi wedi defnyddio'r pwerau, rhannwch gopi electronig o'r ceisiadau a'r awdurdodiadau perthnasol i mi eu hadolygu pan fyddwch chi'n ateb y llythyr hwn. | | | Heblaw am y pwyntiau hyn, rwy'n fodlon bod ymateb eich Cyngor yn rhoi sicrwydd y bydd yn cydymffurfio’n barhaus â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf Pwerau Ymchwilio 2016. Felly, ni fydd angen archwiliad ychwanegol ar eich Cyngor chi eleni.<br><br>Gofynnaf i chi sicrhau bod y materion cydymffurfio allweddol yn parhau i gael trefniadau llywodraethu a'r oruchwyliaeth fewnol angenrheidiol trwoch chi'ch hun a'ch Uwch Swyddog Cyfrifol: adnewyddu polisïau; diweddariadau blynyddol i'ch Aelodau Etholedig; hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn barhaus; monitro cydymffurfiaeth fewnol gan reolwyr arweiniol yn eu meysydd busnes; a chadw, adolygu a dinistrio unrhyw gynnyrch a geir trwy ddefnyddio pwerau cudd (yn unol â Phenodau Diogelu'r Codau Ymarfer perthnasol).<br><br>Bydd eich Cyngor yn cael ei arolygiad nesaf yn 2027.<br><br>**Diweddariad:**<br>Mae Polisi RIPA y Cyngor wedi'i ddiweddaru yn unol ag ymateb yr ICPO a chytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:<br><br>• Cynnal adolygiad llawn o Bolisi RIPA (yna cynhelir adolygiad llawn yn flynyddol)<br>• Paratoi adroddiad pwyllgor i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 2 Ebrill 2025<br>• Aelodau Etholedig i adolygu a chymeradwyo'r polisi yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Diweddaru Tudalen Infonet RIPA er mwyn ei bod yn cynnwys dolen i adnoddau allanol perthnasol (Gwefan IPCO ac ati)<br>• Cyhoeddi eitem Newyddion y Gweithlu yn atgoffa staff o egwyddorion allweddol RIPA ac ati.<br>• Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o safon uchel sydd ar gael i bob swyddog yn y Cyngor sy'n ymwneud ag ymchwiliadau troseddol. |

# Adran 2 Crynodeb o Reoliadau ac Arolygiadau Allanol 2023/24 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNNYDD

## Archwilio Cymru

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llamu Ymlaen<br><br>Ebrill 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_springing_forward_welsh.pdf<br><br>**Argymhellion ar gyfer gwella:**<br><br>**Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br><br>**A1** Dylai'r Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau yn y dyfodol o ran ei asedau a'i weithlu, gan adeiladu ar brofiad o'r pandemig, er mwyn datblygu dull hirdymor o ymdrin â'i asedau a'i weithlu, sydd wedi'i integreiddio â chynlluniau allweddol eraill ac sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau cyflawni wedi'u costio.<br><br>**Data a Meincnodi**<br><br>**A2** Dylai'r Cyngor ddatblygu'r defnydd o ddata a meincnodi ymhellach i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24 | COG: OREN<br><br>**O ran asedau, bydd y Cyngor yn:**<br><br>Gweithio gyda grŵp Rheoli Asedau Rhanbarthol Gogledd Cymru Ystadau Cymru (y mae gan y Cyngor gynrychiolydd arno) i weld a ellir cytuno ar feincnodau asedau rhanbarthol a'u mabwysiadu.<br><br>Helpu i ddatblygu'r Strategaeth Gofod Swyddfa.<br><br>Darparu Adroddiad Monitro Blynyddol ar Reoli Asedau. | COG: GWYRDD<br><br>**O ran Asedau:**<br><br>Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ei Gynllun Rheoli Asedau blaenorol ac wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2022-2027 newydd. Mae'r Cynllun wedi'i foderneiddio yn cysylltu â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Lleihau Carbon.<br><br>Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddull cydweithredol ac yn gweithio (a bydd yn parhau i weithio) gyda phartneriaid ar fentrau sy'n gysylltiedig ag eiddo ar y cyd pan fo'n berthnasol ac yn ymarferol i wneud hynny.<br><br>O safbwynt asedau, yn hanesyddol bu cronfa ddata genedlaethol anghyson iawn o Ddangosyddion Perfformiad o safbwynt rheoli eiddo tirol. Roedd y Dangosyddion Perfformiad hynny y cafodd eu meincnodi yn y gorffennol, e.e., y rhai a gasglodd y Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yn tueddu i fod yn wahanol iawn o ran gwerth, o ganlyniad i wahanol fethodolegau cyfrifo ar gyfer pob Awdurdod, ac o ganlyniad i hyn, |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ychydig iawn o fuddion oedd ganddyn nhw fel adnodd meincnodi.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn llunio dangosyddion perfformiad mewnol sy'n ymwneud â'i bortffolio anweithredol. Caiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol a'u monitro trwy ddadansoddiad tueddiadau<br><br>Rydym ni wedi ymrwymo i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gynnydd y Cynllun Rheoli Asedau drwy'r broses ddemocrataidd. |
| | | | | COG: OREN<br><br>**O ran y gweithlu:**<br><br>Mae Strategaeth Pobl y Cyngor wedi'i diweddaru a bydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Cabinet ei chymeradwyo.<br><br>Mae gan y strategaeth newydd nifer o fesuryddion perfformiad, gan gynnwys amser penodi (nifer y diwrnodau gwaith o dderbyn cynnig amodol i gwblhau'r cliriadau er mwyn i'r gweithiwr gychwyn) ac eithrio gweithgarwch trydydd parti (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau geirdaon), canran y gweithwyr parhaol sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflogaeth, canran trosiant (ac eithrio diswyddiadau), ymysg eraill.<br><br>Mae'r Cyngor yn adrodd ar ddau o Fesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (Absenoldebau a Phrentisiaethau) sydd yn ei alluogi i gymharu ei berfformiad â pherfformiad y 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. | COG: GWYRDD<br><br>**O ran y gweithlu:**<br><br>Mae Strategaeth Pobl y Cyngor wedi'i diweddaru a bydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Cabinet ei chymeradwyo.<br><br>Mae gan y strategaeth newydd nifer o fesuryddion perfformiad, gan gynnwys amser penodi (nifer y diwrnodau gwaith o dderbyn cynnig amodol i gwblhau'r cliriadau er mwyn i'r gweithiwr gychwyn) ac eithrio gweithgarwch trydydd parti (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau geirdaon), canran y gweithwyr parhaol sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflogaeth, canran trosiant (ac eithrio diswyddiadau), ymysg eraill.<br><br>Mae'r Cyngor yn adrodd ar ddau o Fesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (Absenoldebau a Phrentisiaethau) sydd yn ei alluogi i gymharu ei berfformiad â pherfformiad y 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â gweithwyr, mae arolwg o'r gweithlu wedi'i gynnal yn flynyddol ers 2020.<br><br>Ceisiodd arolwg 2020 ddeall barn a phrofiadau unigolion o weithio i'r Cyngor. Er gwaethaf yr heriau o weithio drwy'r pandemig, roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ac yn dangos bod y Cyngor wedi elwa o weithlu ymroddedig ac ymrwymedig a oedd yn deall sut mae eu gwaith nhw'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad.<br><br>Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ym mis Hydref 2023. Gwahoddwyd adborth gan weithwyr ar y chwe maes canlynol:<br>• Ymgysylltu<br>• Blaenoriaethau<br>• Iechyd Meddwl a Lles<br>• Cyfathrebu<br>• Gweithio hybrid<br>• Gweledigaeth a Gwerthoedd<br><br>Cafodd y canfyddiadau i gyd eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2024 a roddodd eu cefnogaeth i fabwysiadu set newydd o werthoedd sefydliadol arfaethedig. Bydd cael set glir o werthoedd sefydliadol yn ei gwneud hi'n haws i ni gydweithio drwy greu diwylliant a gweledigaeth y gallwn ni i gyd eu rhannu, gan ein galluogi ni i fod yn sefydliad y mae angen i ni fod. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd y gwerthoedd yn cael eu hymgorffori ym mhopeth a wnawn, gan ddechrau gyda recriwtio, rheoli perfformiad a pholisïau cyflogaeth. | |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru<br><br>Awst 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Craciau_yn_y_Sylfeini_Diogelwch_Adeiladau_yng_Nghymru_Cymraeg.pdf<br><br>**Recommendation / Proposals for Improvement:**<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**Mae A1 / A2 / A3 ac A4 ar gyfer Llywodraeth Cymru**<br><br>**A5** Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:<br>• fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru;<br>• nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;<br>• dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion lles ac amcanion corfforaethol eraill; a<br>• chynnwys mesuryddion canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mai 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br>Ebrill 25*<br><br>*Ni ychwanegwyd yr adroddiad at y Rhaglen Waith ar gyfer Mehefin 24 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol | COG: COCH<br><br>**A5** Nid oes gennym ni gynllun gweithredu lleol ar hyn o bryd sy'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer sut mae Parhad Busnes yn bwriadu gweithredu gofynion y ddeddf yn effeithiol. Mae angen datblygu hyn a'i roi ar waith. Ymhlith pethau eraill, byddai hyn yn cynnwys yr hyn a nodir yn y pedwar pwynt bwled dan A5.<br><br>COG: OREN<br><br>**A6** Caiff ffioedd Rheoliadau Adeiladu eu pennu'n lleol gan Gyngor Sir y Fflint. Cynhaliwyd yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o'r ffioedd yn 2018. Bydd y ffioedd yn cael eu hadolygu yn 2024 a bydd hynny'n cynnwys cymhariaeth â chynghorau lleol eraill, yn enwedig cynghorau cyfagos yn y gogledd.<br><br>Mae Rheoli Adeiladu yn wasanaeth cystadleuol. Gall cwsmeriaid ddefnyddio dulliau eraill y tu allan i'r Cyngor i gael Rheoliadau Adeiladu (e.e. defnyddio arolygwyr cymeradwy), felly bydd yn rhaid i adolygiad ac unrhyw adolygiad dilynol o'r ffioedd sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn gystadleuol a pheidio â phrisio gwasanaethau'r Cyngor y tu hwnt i'r farchnad. | COG: COCH<br><br>**A5** Ni wnaed rhagor o gynnydd. Mae'r rhain yn dal i gael eu trafod yn LBAC Cymru (pob awdurdod yng Nghymru) o ran dull ac arddull.<br><br>COG: OREN<br><br>**A6** Mae rhywfaint o'r adolygiad cychwynnol o Ffioedd Rheoli Adeiladu wedi'i gynnal ynghyd â meincnodi â Thimau LABC eraill ledled Cymru. Mae'r maes hwn wedi'i nodi ar gyfer Cynllun Strategol Archwilio Mewnol ac mae Cwmpas yr Archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn ei gamau terfynol ar gyfer cael ei gymeradwyo. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **A6** Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:<br><br>• sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;<br>• adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;<br>• sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod nhw'n cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a<br>• diwygio ffioedd i sicrhau y codir tâl am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau.<br><br>**A7** Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau prin drwy archwilio'r posibilrwydd ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos, sefydlu mentrau ar y cyd a/neu fabwysiadu model rhanbarthol pan fo hynny'n fuddiol. | | | COG: **OREN**<br><br>**A7** Bydd hyn yn gofyn am drafodaeth ar lefel ranbarthol i archwilio'r posibilrwydd ar gyfer cydweithio a sefydlu model rhanbarthol.<br><br>Mae Cynllun Awdurdod Partneriaeth Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol eisoes ar waith sy'n cael ei rannu gan bob tîm Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr, ac mae hyn yn galluogi i gwsmeriaid weithio gydag unrhyw dîm Rheoli Adeiladu awdurdod lleol i ymgymryd â gwaith cyn cyflwyno cais a gwaith fetio dyluniadau, waeth beth yw lleoliad y prosiect. Rydym ni eisoes yn darparu'r gwasanaeth hwn i Iceland Foods. Rydym ni'n fetio eu cynlluniau ar gyfer siopau newydd a gwaith ôl-osod, ni waeth ble maen nhw'n ddaearyddol. | COG: **OREN**<br><br>**A7** Ni wnaed unrhyw gynnydd o ran archwilio'r cyfle i gydweithio'n ffurfiol ar lefel ranbarthol hyd yn hyn. Nid oes llawer o awydd ar hyn o bryd trwy gyfarfodydd LABC Cymru. Fodd bynnag, mae Rheoli Adeiladu Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag Awdurdodau eraill yn genedlaethol a ledled Gogledd Cymru dan Gynllun Awdurdod Partner LABC yn gysylltiedig â cheisiadau a chyflwyniadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyfleoedd i Dimau Rheoli Adeiladu cyfagos at ddibenion cofrestru dosbarth uwch dan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu. |
| | **A8** Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso nhw ac i graffu arnynt. | | | COG: **COCH**<br><br>**A8** Mae angen cynnal adolygiad o'r prosesau rheoli risg. Mae nifer o risgiau wedi'u nodi'n barod, yn cynnwys nodweddion y system swyddfa gefn a diffyg swyddogaethau gweithio hyblyg (ar gyfer syrfewyr ar y safle) a'r gofyniad newydd ers 6 Ebrill 2024 i gofrestru fel Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig. Gall y tîm/swyddogaeth Rheoli Adeiladu fod yn faes a gaiff ei gefnogi gan Adolygiad Archwilio mewnol. | COG: **COCH**<br><br>**A8** Heb ei ddatblygu ond mae hyn yn dod o fewn cwmpas gwaith Archwilio Mewnol fel y nodir yn A6 uchod. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Asesiadau Risg a Sicrwydd**<br><br>**Hydref 2023** | **Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor brisio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Os nad yw'r Cyngor yn datblygu cynlluniau busnes manylach a fydd yn amcangyfrif y buddsoddiad sydd ei angen, mae'n annhebygol y bydd yn gallu cyrraedd ei nod carbon sero net erbyn 2030. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mawrth 25<br><br>Mawrth 25<br><br>Ebrill 24 | **COG: OREN**<br><br>**A1** Mae pob corff sector cyhoeddus yn cael yr un drafferth wrth nodi costau camau gweithredu ar gyfer yr hinsawdd. Mae hyn o ganlyniad i sawl ffactor: y sefyllfa ariannol gyfnewidiol, prisiau ynni'n newid, diffyg gallu neu ddealltwriaeth i gymhwyso gwybodaeth ariannol i ffactorau nad ydynt yn feintiol (fel newid ymddygiad), a diwydiant sy'n esblygu ac yn datblygu'n barhaus nad oes gennym ni'r holl atebion i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd eto. | **COG: GWYRDD**<br><br>**A1** Mae her yn bodoli o hyd o ran costau camau gweithredu ar gyfer yr hinsawdd o ganlyniad i sefyllfa ariannol gyfnewidiol, prisiau ynni'n newid, diffyg gallu neu ddealltwriaeth i gymhwyso gwybodaeth ariannol i ffactorau nad ydynt yn feintiol (fel newid ymddygiad), a diwydiant sy'n esblygu ac yn datblygu'n barhaus nad oes gennym ni'r holl atebion i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd eto. Fodd bynnag, yn y Strategaeth Newid Hinsawdd wedi'i hadolygu, mae costau uchel o fewn Adeiladau a Symudedd a Chludiant wedi'u cynnwys. Mae gan bob un o'r gweithgareddau lleihau carbon hyn sydd wedi'u costio astudiaethau dichonoldeb, ac mae achosion busnes yn cael eu datblygu i sicrhau buddsoddiad mewnol neu allanol. |
| **Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Persbectif Defnyddwyr Gwasanaeth a Chanlyniadau**<br><br>**Rhagfyr 2023** | **Dolen at yr adroddiad:**<br>[https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_service_user_perspective_outcomes_welsh.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/flintshire_council_service_user_perspective_outcomes_welsh.pdf)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1 Gwybodaeth am safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi nhw i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24 | **COG: OREN**<br><br>**A1** Caiff gwybodaeth ar lefel defnyddiwr gwasanaeth ei hadrodd yn ôl disgresiwn gwasanaethau i reolwyr perthnasol neu arweinwyr portffolios fel sy'n briodol. Fodd bynnag, yn rhan o Hunan-asesiad Corfforaethol y Cyngor yn 2022/23, nododd y Cyngor bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gyfle i wella a lluniwyd cynllun gweithredu i wella a mynd i'r afael â threfniadau ymgynghori ac ymgysylltu yn y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth | **COG: OREN**<br><br>**A1** Caiff gwybodaeth ar lefel defnyddiwr gwasanaeth ei hadrodd yn ôl disgresiwn gwasanaethau i reolwyr perthnasol neu arweinwyr portffolios fel sy'n briodol. Fodd bynnag, yn rhan o Hunan-asesiad Corfforaethol y Cyngor yn 2022/23, nododd y Cyngor bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gyfle i wella a lluniwyd cynllun gweithredu i wella a mynd i'r afael â threfniadau ymgynghori ac ymgysylltu yn y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, ac |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | **A2 Gwybodaeth am ganlyniadau**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu nhw i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriadwyd.<br><br>**A3 Trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb data**<br>Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei roi i uwch arweinwyr sy'n ymwneud â phersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau. | | Ymgynghori ac Ymgysylltu, ac yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth hon, bydd pwyslais allweddol ar ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth a sut yr ydym ni’n casglu ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i lunio gwasanaethau, datblygu polisïau a/neu gymryd camau gweithredu. | yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth hon, bydd pwyslais allweddol ar ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth a sut yr ydym ni’n casglu ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i lunio gwasanaethau, datblygu polisïau a/neu gymryd camau gweithredu.<br><br>Mae datblygiad y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi’i ohirio o ganlyniad i flaenoriaethau sy’n gwrthdaro ond caiff ei datblygu a’i chwblhau wrth i ni symud i mewn i 2025/26. |
| | | | COG: OREN<br><br>**A2** I gryfhau’r ffordd mae’r Cyngor yn cyflawni ei ganlyniadau a chanlyniadau arfaethedig o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, bydd yr adolygiad blynyddol o’r camau gweithredu a mesurau a nodir yng Nghynllun y Cyngor (2023-28) yn sicrhau, pan fo’n berthnasol, bod gwybodaeth benodol am y pwnc hwn yn cael ei chasglu a’i chofnodi, a chanlyniadau sy’n ceisio sicrhau buddion tymor byr, tymor canolig a hirdymor i’n dinasyddion a’n cymunedau ni. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ymgysylltu â phortffolios yn uniongyrchol i gwblhau’r adolygiad cynnwys ar gyfer 2024-25 o Gynllun y Cyngor yn 2023-28.<br><br>Yn ogystal â hyn, caiff adroddiadau perfformiad chwarterol Cynllun y Cyngor 2023-28 eu cyflwyno i uwch arweinwyr, a fyddai’n cynnwys y wybodaeth hon. | COG: OREN<br><br>**A2** Er mwyn cryfhau sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ganlyniadau a'r canlyniadau a fwriedir o ran safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, mae adolygiad canol y cynllun o Gynllun y Cyngor ar y gweill. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, gweithdai thematig ac ymgysylltu â Sir y Fflint Ifanc ac Aelodau.<br><br>Mae adroddiadau perfformiad Cynllun y Cyngor yn cael eu diwygio yn rhan o adolygiad canol y cynllun i sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei darparu i uwch arweinwyr yn eu helpu nhw i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau arfaethedig. Os nad yw amcanion yn cael eu cyflawni, darperir gwybodaeth yn egluro pam a pha gamau fydd yn cael eu cymryd. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A3** Cyfrifoldeb y maes gwasanaeth yw adolygu cywirdeb y data a'r wybodaeth a ddarperir ganddynt i uwch arweinwyr. Bydd trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb y data y tu hwnt i'r trefniadau presennol yn gofyn am gapasiti ychwanegol nad yw'r sefyllfa ariannol bresennol yn ei ganiatáu.<br><br>Fodd bynnag, fel cam ychwanegol, bydd gofyn i Arweinwyr Perfformiad gadarnhau'r trefniadau monitro sydd ganddyn nhw ar waith i sicrhau cywirdeb y data a bod y trefniadau sydd ganddyn nhw'n effeithiol. Byddai hyn yn ymdrin â data sy'n ymwneud â safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau rheoli perfformiad Cynllun y Cyngor. | COG: GWYRDD<br><br>**A3** Cyfrifoldeb y meysydd gwasanaeth yw adolygu cywirdeb eu data a'r wybodaeth y mae'n ei darparu i uwch arweinwyr o hyd o ganlyniad i lai o gapasiti.<br><br>Fodd bynnag, yn rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i welliant dan arweiniad y sector, mae'r Cyngor wedi dod yn rhan o Gymuned Ymarfer newydd CLILC a Data Cymru, sydd â'r nod o wella ansawdd gwybodaeth am berfformiad. Mae Cymuned Ymarfer Gwybodaeth am Berfformiad Cyngor Cymru yn rhoi cyfleoedd i adolygu trefniadau rheoli perfformiad, rhannu arferion gorau, a chydweithio ar ddatblygu data.<br><br>Mae Argymhelliad 3 hefyd yn cysylltu'n agos ag Argymhelliad 2. |
| Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag.<br><br>Ionawr 2024 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Datblygu_cynaliadwy_gwneud_y_defnydd_gorau_o%20dir_llwyd_ac_adeiladau_gwag_cymraeg.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Datblygu_cynaliadwy_gwneud_y_defnydd_gorau_o%20dir_llwyd_ac_adeiladau_gwag_cymraeg.pdf)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn galluogi budd-ddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai cynghorau greu proses systematig i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer adfywio a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt: | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mai 25<br><br>Mai 25<br><br>Mehefin 25 | **COG – Amherthnasol**<br><br>Rydym ni'n ymwybodol o'r adroddiad, rydym ni'n paratoi ein hymateb, a byddwn ni'n cyflwyno'r rhain drwy'r broses lywodraethu maes o law. | **COG – Amherthnasol**<br><br>Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi i swyddogion y timau perthnasol yn y Cyngor i'w ystyried a'r dyddiad cau yw 4 Ebrill 2025. Bydd ymatebion y gwasanaeth i adroddiad Archwilio Cymru yn cael eu llunio mewn ymateb ffurfiol drafft a byddan nhw'n cael eu cyflwyno fel a ganlyn:<br>• Tîm y Prif Swyddogion i'w adolygu – 8 Ebrill 2025<br>• Cabinet Anffurfiol – 29 Ebrill 2025 |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | • dylai hyn dynnu ar ddata sydd eisoes gan gynghorau, yn ogystal â ffynonellau data allanol i ddatblygu darlun cyfansawdd a mwy cyflawn o safleoedd; a<br>• phan fo hynny'n hysbys, dylid enwi rhwystrau allweddol i helpu ag ymdrechion i'w goresgyn nhw.<br><br>**R2** Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgarwch adfywio a llunio'r amgylchedd yn cael ei lywio gan anghenion cymunedau, dylai Cynghorau gynyddu cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn adfywio, wrth lunio cynlluniau a datblygu gwirioneddol.<br><br>**R3** Er mwyn rhoi pwyslais ar ddatblygu safleoedd tir llwyd a rhoi hwb iddynt, dylai Cynghorau adolygu eu dulliau adfywio presennol a, phan fo hynny'n briodol, pennu polisïau a thargedau adfywio cliriach a mwy uchelgeisiol. Dylai'r rhain:<br>• ddisgrifio dull a disgwyliadau'r Cyngor;<br>• disgrifio sut y byddan nhw'n cyflenwi adnoddau ar gyfer eu dull; a<br>• disgrifio sut mae'r dull yn cyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol. | | | | • Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi – 6 Mai 2025<br>• Cabinet i'w gymeradwyo – 13 Mai 2025<br>• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer cadarnhad terfynol – 4 Mehefin 2025 |
| **Gwasanaethau Digartrefedd**<br><br>**Ionawr 2024** | **Dolen at yr adroddiad:** Ddim ar gael eto ar wefan Archwilio Cymru<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**A1** Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn weithredol ac yn strategol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyllid ar gael i gynnal ei lefelau gwasanaeth neu i wneud penderfyniadau ar gyflawni gwasanaethau yn seiliedig ar yr arian sydd ar gael. | Tîm y Prif Swyddog:<br>Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Chwefror 24<br>Mawrth 24<br>Mawrth 24<br>Ebrill 24 | COG: OREN<br><br>**R1** Ymgymryd â gwaith monitro sefyllfa'r gyllideb refeniw yn erbyn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a modelu erbyn diwedd mis Mawrth 2025.<br><br>Gweithredu'r mesurau lliniaru y cytunwyd arnynt erbyn diwedd mis Mawrth 2025 | COG: GWYRDD<br><br>**R1** Cyfarfodydd Monitro Misol Parhaus gyda'r adran gyllid i adolygu data am y galw i reoli'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ac i lywio'r pwysau ar y gyllideb tymor canolig a modelu ariannol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **A2** Mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer gwerthuso ei weithgareddau yn ymwneud â digartrefedd ar waith ar gyfer pob gweithgaredd fel y gall roi sicrwydd o'r effaith ar effeithlonrwydd a defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>**A3** Er mwyn deall anghenion trigolion yn well, dylai'r Cyngor ehangu ei weithgarwch o ran ymgysylltu â thrigolion i gwmpasu datblygu a gwerthuso pob gwasanaeth. | | | Ailstrwythuro'r gwasanaeth er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau ar gyfer darparu'r gwasanaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2024 | Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Digartrefedd wedi'i gwblhau gan Ymgynghorwyr ac Ailstrwythuro Gwasanaethau Neil Morland & Co ac ailystyriwyd yr uchelgais o ran capasiti staffio yn seiliedig ar Argymhellion yr Adolygiad (Pwyllgor Craffu Tai a'r Cabinet Hydref 2024).<br><br>Mae arallgyfeirio'r Portffolio Llety Digartrefedd wedi'i gwblhau a chefnogodd yr Aelodau'r dull osgoi costau i alluogi rhagor o fuddsoddiad mewn Ailstrwythuro'r Gwasanaeth a chefnogi gwahanol fodelau o lety i bobl ddigartref (Pwyllgor Craffu Tai a'r Cabinet Hydref 2024).<br><br>Mae pob swydd o fewn Ailstrwythuro Gwasanaeth bellach wedi bod trwy'r broses Gwerthuso Swyddi ac wedi'u costio'n llawn. Dechreuwyd recriwtio ar raddfa fawr ym mis Rhagfyr 2024 pryd cafodd 30 o swyddi ychwanegol eu hysbysebu a bydd hyn yn parhau drwy gydol hanner cyntaf 2025. |
| | | | | **COG: OREN**<br><br>**A2** Nodi a chofnodi pob gweithgaredd yn ymwneud â digartrefedd – nid gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu gan y Grant Cymorth Tai yn unig, erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>Adolygu'r prosesau gwerthuso sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai a datblygu hyn ymhellach i wella'r asesiadau effaith a'r dadansoddiad | **COG: GWYRDD**<br><br>**A2** Ymyraethau Digartrefedd fel gwella diogelwch, Rhent Ymlaen Llaw, Achub Ôl-ddyledion ac ati i gyd wedi'u nodi ac egwyddorion gwerth am arian wedi'u dogfennu. Bydd pob achos yn wahanol, ond mae egwyddor gyffredinol gwerth am arian yn seiliedig ar risg a chostau talu am ddyletswyddau llety digartrefedd. Adroddiad gwerth am arian diwedd y flwyddyn ariannol i'w gwblhau ym mis Mai 2025 ar gyfer 2024/2025. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | buddion cost, a chymhwyso hynny at yr holl weithgareddau digartrefedd a nodir erbyn diwedd mis Mehefin 2024.<br><br>Datblygu rhaglen dreigl a phrosesau lleol ar gyfer gwerthuso’r holl weithgareddau’n ymwneud â digartrefedd erbyn mis Mehefin 2024. | Cafodd dyfarniadau Gwerth am Arian cynhwysfawr ar gyfer arallgyfeirio llety digartrefedd trwy gyflwyno amrywiaeth o wahanol fathau o lety i bobl ddigartref eu modelu a'u cyflwyno i'r [Pwyllgor Craffu Tai a'r Cabinet ym mis Hydref 2024]. Gwnaeth yr arbedion a nodwyd (tua £2 filiwn) olygu bod modd buddsoddi mewn staff ychwanegol ar egwyddor osgoi costau i gefnogi Ailstrwythuro'r Gwasanaeth.<br><br>Mae gwerth am arian yn allweddol i'r broses dendro ar gyfer y Grant Cymorth Tai ynghyd ag ansawdd y cynigion. Mae nifer o wasanaethau wedi cael eu hail-dendro yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025. Y prif ffactor sy’n ysgogi gwerth am arian a budd a chost ar hyn o bryd yw cynaliadwyedd y gwasanaeth a buddsoddi mewn cyflog byw gwirioneddol er mwyn cadw staff. Mae hon yn gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei chefnogi'n llawn yn Sir y Fflint. Mae'r gwasanaethau i gyd yn cydymffurfio â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac mae Gwasanaethau'n cael eu hadolygu yn unol â hynny ddwywaith y flwyddyn. |
| | | | | **COG: OREN**<br><br>**A3** Adeiladu ar y gweithgareddau ymgysylltu â phreswylwyr sy’n bodoli eisoes a datblygu fframwaith ymgysylltu â phreswylwyr ar gyfer gwasanaethau digartrefedd sy’n cynnwys datblygu a gwerthuso gwasanaethau erbyn diwedd mis Medi 2024. | **COG: OREN**<br><br>**A3** Mae gweithgareddau cyfranogi defnyddiwr gwasanaeth yn llywio prosesau tendro ar gyfer gwasanaethau newydd sy’n cael eu comisiynu drwy'r Grant Cymorth Tai ond mae angen eu datblygu ymhellach.<br><br>Yn rhan o broses Ailstrwythuro'r Gwasanaeth, mae swydd |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cydlynydd Porth a Chefnogi Gwasanaethau wedi'i datblygu. Bydd y swydd hon yn cefnogi pob Rheolwr Tîm i ddatblygu cyfres o arolygon i'w rhoi i drigolion ar adegau allweddol yn ystod siwrnai’r cwsmer i lywio'r gwasanaeth a gyflwynir.<br><br>Mae trafodaethau wedi’u cynnal â Swyddog Prosiect Daliwch Sylw Shelter Cymru i ddatblygu banc o wirfoddolwyr i gefnogi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Pan fydd y grŵp hwn o drigolion wedi'i sefydlu, bydd yn Grŵp Ffocws Sir y Fflint ar gyfer ymgynghori a chyfleoedd dylunio ar y cyd.<br><br>Y bwriad yw cofnodi pob dull o Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Tai a Digartrefedd. Y gobaith yw y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2025. Mae hyn wedi cael ei ohirio o ganlyniad i oedi wrth Ailstrwythuro'r Gwasanaeth a phrinder staff a rheolwyr. |

# Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Cyngor Sir y Fflint<br><br>Tachwedd 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** [https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2024-02/240221-flintshire-PEI-cy.pdf](https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2024-02/240221-flintshire-PEI-cy.pdf)<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>**GWASANAETHAU OEDOLION**<br>**Pobl – Llais a Rheolaeth – Meysydd i'w gwella**<br>**2.7** Gallai cynlluniau gofal a chymorth gael eu datblygu ymhellach drwy bennu canlyniadau CAMPUS cliriach a defnyddio dull rhagweithiol yn seiliedig ar gryfderau yn gyson. Yn ogystal â hyn, er bod lleisiau'r bobl yn glir mewn rhai asesiadau, dylid datblygu'r dull hwn ymhellach mewn cynlluniau gofal a chymorth. ***Dylid cyfeirio at yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a dylid cofnodi canlyniadau personol yn fwy cyson yn y person cyntaf.***<br><br>**2.8** Weithiau, caiff pobl eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd tra eu bod nhw ar restr aros i'w dyrannu i weithiwr penodol. Gall hyn fod yn heriol i bobl gan nad oes trosolwg digonol o'u hamgylchiadau, ceir diffyg parhad cymorth ac mae'n rhaid i'r bobl ailadrodd eu stori. ***Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu digonol, cymwysedig a medrus cyson er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu cefnogi gan wahanol ymarferwyr nad ydyn nhw'n eu hadnabod.*** | Cabinet:<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br><br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Mehefin 24<br><br>Mehefin 24<br><br>Mehefin 24 | **COG – Amherthnasol**<br><br>Ar y cyfan, rydym ni'n credu bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r gwaith parhaus yn ein gwasanaethau a gyda'n partneriaid. Mae'r arolygwyr wedi nodi gwaith ac arferion da ar draws bob gwasanaeth. Mae ychydig o feysydd i'w gwella, ac yr ydym ni'n datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Bydd y cynllun gweithredu drafft yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu drafft wedi'i gyflwyno i dîm y Prif Swyddog, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Mehefin 2024. | **COG: GWYRDD**<br><br>**A2.7** Mae Cyfarwyddeb Ymarfer wedi'i chreu a'i chyhoeddi i gefnogi ymarferwyr i greu canlyniadau gan ddefnyddio amcanion CAMPUS â dull sy'n seiliedig ar gryfderau a dangos rhai enghreifftiau o arferion da.<br><br>**COG: GWYRDD**<br><br>**A2.8** Mae'r Prosiect Gwydnwch a oedd yn edrych ar recriwtio, cadw staff a gwydnwch yn y gweithlu bellach wedi'i gwblhau.<br><br>O ganlyniad i ffrwd waith y Prosiect Gwydnwch, gwnaeth tîm y De roi cynnig ar gyflwyno swydd gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd gyson i'r tîm. Roedd hyn yn llwyddiannus, a chafwyd adborth da gan y tîm. Cafodd yr ymarfer treialu ei ehangu a'i fabwysiadu gan Ardaloedd Lleol a Therapi Galwedigaethol oherwydd bod y timau wedi cael eu hailstrwythuro ym mis Medi 2024.<br><br>**COG: GWYRDD**<br><br>**A2.9** Symudwyd i fonitro cymesur gan ddefnyddio matrics asesiad risg newydd.<br><br>Lwfans cronfeydd dros ben wedi'i leihau o 8 i 6 wythnos.<br><br>Symudwyd yr holl Daliadau Uniongyrchol i ddatrysiadau rheoli mwy effeithiol h.y., cael gwared ar yr holl Daliadau Uniongyrchol i gael Cynorthwyydd Personol a monitro ar bapur.<br><br>Cwblhau data gwybodaeth gwasanaeth cywir yn well. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | **2.9** Ceir enghreifftiau o adolygiadau taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd un enghraifft nad oedd wedi cael adolygiad. ***Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y cânt eu defnyddio yn unol â Chod Ymarfer 4 (Diwallu Anghenion) er mwyn asesu a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni o hyd.*** | | | COG: **GWYRDD**<br><br>**A2.10** Mae Cyfarwyddeb Ymarfer wedi'i chreu a'i chyhoeddi i gefnogi ymarferwyr i gofnodi unrhyw gyfathrebu a wneir ag unigolion ac i ddangos rhai enghreifftiau o arferion da. |
| | **2.10** Pan fydd ymarferwyr yn ceisio cyfathrebu ag unigolion, dylai'r awdurdod lleol sicrhau sail dystiolaeth fwy cyson sy'n adlewyrchu'r dulliau cyfathrebu a ystyriwyd ac y rhoddwyd cynnig arnynt.<br><br>**2.11** Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried a'u cynnig yn gyson pan fyddai hynny wedi bod yn briodol. ***Mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei gryfhau er mwyn dangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried fel mater o drefn, yn enwedig ym maes diogelu oedolion.*** | | | COG: **GWYRDD**<br><br>**A2.11** Mae Cyfarwyddeb Ymarfer wedi'i chreu a'i chyhoeddi i gefnogi ymarferwyr i gofnodi'r cynnig eiriolaeth a'r ystyriaethau a gymerwyd ac i ddangos rhai enghreifftiau o arferion da.<br><br>Mae rhestr archwilio wedi'i diwygio a'i hehangu er mwyn holi a ddefnyddiwyd eiriolaeth ac os nad, pam hynny.<br><br>Mae darparwyr eiriolaeth wedi cael gwahoddiad i gyflwyno sesiynau gwybodaeth rheolaidd i dimau, gan roi gwybodaeth am y cynnig eiriolaeth ac ateb cwestiynau.<br><br>Mae adroddiad wedi'i greu yn system Paris i ymchwilio i faint sy'n cwblhau gwybodaeth eiriolaeth i fonitro'r cynnydd gan gynnwys sylwadau. |
| | **Lles – Meysydd i'w gwella**<br>**4.6** O ran diogelu oedolion, gwelsom ni amrywiaeth mewn cofnodion gofal cymdeithasol. Mae angen mwy o eglurder o ran safbwyntiau'r oedolyn sy'n wynebu risg, o ran gwneud penderfyniadau, o ran trafodaethau, ac o ran cadarnhau a yw'r camau gweithredu dilynol wedi ymdrin â'r pryder gwreiddiol. Mae'n rhaid rhannu canlyniadau'r ymholiadau â'r unigolyn a gyflwynodd y pryder. ***Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu oedolion yn bodloni gofynion GDC yn gyson.*** | | | COG: **GWYRDD**<br><br>**A4.6** Cwblhau adolygiad o ffurflenni cau i sicrhau bod camau gweithredu dilynol wedi mynd i'r afael â'r pryderon gwreiddiol. Mae'r ffurflenni cau i gyd yn cael eu hawdurdodi gan reolwr cyn cau er mwyn sicrhau bod y |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | **4.7** Mae asesiadau gofal cymdeithasol ac adroddiadau diogelu rhai unigolion yn dangos nad oes ganddyn nhw alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae ansawdd y cofnodion hyn a'r penderfyniadau a wneir yn amrywio. ***Mae’n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei ymarfer yn cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer perthnasol yn gyson.***<br><br>**4.8** Yn debyg i lawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau dan y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn effeithio ar hawliau pobl. ***Mae’n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu asesiadau dan y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn addas at y diben a'u bod nhw’n ymatebol.***<br><br>**4.9** Nid yw'r system gofnodi bresennol yn helpu ymarferwyr i nodi cryfderau a chanlyniadau pobl mewn ffordd ystyrlon. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried hyn, a bwrw ati i gaffael system gofnodi wedi'i diweddaru.***<br><br>Atal – Meysydd i’w gwella<br>**6.7** Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau ac adolygiadau gofal cymdeithasol yn hir a gallen nhw gael effaith negyddol ar bobl. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio’r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn anghyson ar draws timau. Er i ni gael sicrwydd ar lafar fod timau yn goruchwylio rhestrau aros, nid oedd llawer o gofnodion i ddangos hyn. ***Mae’n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff rhestrau aros eu monitro mewn ffordd briodol a chyson ac y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi i ddangos bod achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.*** | | | camau gweithredu wedi mynd i'r afael â'r pryder gwreiddiol. Dyma oedd y broses erioed, ond cydnabyddir bod rhai anghysondebau wedi bod yn gysylltiedig â chofnodi mewn rhai achosion. Aethpwyd i’r afael â hyn.<br><br>Cafodd trafodaeth ei chynnal gyda'r tîm i sicrhau cydymffurfiaeth ag adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr.<br><br>Pan fydd y broses wedi'i chwblhau ar ôl cyfarfod strategaeth, mae'r Rheolwr Tîm yn cwblhau archwiliad o'r achos ac yn gwirio bod popeth yno cyn cau. Fel arfer, bydd yr atgyfeiriwr yn mynd i’r cyfarfod strategaeth os oes un wedi bod.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o ffurflen Paris i sicrhau bod lle perthnasol i gofnodi hyn. Canfuwyd nad oedd angen diwygio ffurflen PARIS gan y cytunwyd ar y broses i gofnodi ar y nodyn achos yn hytrach nag ychwanegu blwch ychwanegol ar y ffurflen.<br><br>COG: GWYRDD<br><br>**A4.7** Mae Cyfarwyddeb Ymarfer wedi'i chreu a'i chyhoeddi i atgoffa ymarferwyr o'r disgwyliad o ran ansawdd cofnodi eu tystiolaeth.<br><br>Gwnaeth un achos penodol dynnu sylw at broblem. Cynhaliwyd proses Gwersi a Ddysgwyd ac mae adolygiad o'r gwasanaeth wedi arwain at newidiadau arfaethedig i ffyrdd o weithio. Mae rhagor o waith ymchwil yn cael ei wneud i'r rhain ac maen nhw’n mynd drwy'r prosesau gwleidyddol perthnasol i'w cymeradwyo cyn iddyn nhw gael eu gweithredu. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **6.8** Ni chaiff cynlluniau gofal a chymorth eu hadolygu mewn modd amserol bob amser. ***Mae’n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn, ac er mwyn ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen cynnal asesiad arall.***<br><br>**Partneriaeth – Meysydd i’w gwella**<br>**8.5** Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol; fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth bob amser ei rhannu'n effeithiol o ganlyniad i wahanol ddulliau a systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl ar gael yn hawdd gan bartneriaid, sy'n cynnwys rhai ymarferwyr sy’n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall hyrwyddo prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach wrth iddo gaffael system gofnodi newydd.*** Dylai pob ymarferydd perthnasol mewn gwahanol dimau yng Nghyngor Sir y Fflint fel timau ardal, timau camddefnyddio sylweddau a thimau iechyd meddwl cymunedol allu cael gafael ar holl gofnodion yr unigolyn maen nhw’n ei gefnogi. Byddai hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn ei gwneud hi'n haws goruchwylio a deall amgylchiadau unigolyn.<br><br>**8.6** Mae’n rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei systemau ar gyfer asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff hawliau a llais pob gofalwr eu hyrwyddo'n llawn. Nid yw asesiadau gofalwyr yn cael eu cofnodi'n ddigonol ac ni cheir cyfathrebu digonol yn eu cylch yn yr awdurdod | | | | COG: GWYRDD<br>**R4.8** Mae proses gadarn ar waith ac mae'n cael ei hadolygu'n barhaus. Caiff achosion brys eu blaenoriaethu, mae'r broses yn adweithiol. Bydd y broses yn parhau i gael ei hadolygu'n gyson.<br><br>COG: GWYRDD<br>**R4.9** Mae’r ffurflenni archwilio ffeiliau achos i gyd yn cael eu dosbarthu i reolwyr a’r rheolwr gwasanaeth ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau er mwyn i reolwyr allu eu defnyddio mewn cyfarfodydd tîm ac i oruchwylio’n unigol i barhau i gefnogi cydymffurfiaeth â'r polisi cofnodi.<br>Bydd caffael y system gwybodaeth cleientiaid newydd yn cymryd tua 3 blynedd, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses hon.<br><br>COG: GWYRDD<br>**R6.7** Mae Paris wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys dewis newydd sef ymholiad â blaenoriaeth a math/rheswm newydd ar gyfer nodyn achos. Bydd hyn yn sicrhau y gellir nodi'n glir a dangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd ar y Rheolwr Ymholiadau cyn dyrannu.<br><br>COG: GWYRDD<br>**R6.8** Newidiadau wedi'u gweithredu i'r broses ar gyfer trefniadau rhyddhau o'r ysbyty. Mae achosion bellach yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i gael eu hadolygu sy'n golygu eu bod nhw’n cael eu hadolygu'n gynt nac y bydden nhw pe bydden nhw’n mynd i dîm yr ardal leol. Mae’r newidiadau i brosesau yn cael eu hystyried ymhellach dan y cyfyngiadau i adnoddau presennol. Mae cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n gyson, gan ddefnyddio |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | lleol. Gwelsom ni enghreifftiau lle nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol a oedd asesiad gofalwr wedi cael ei gynnal, ac os cafodd asesiad ei gynnal, beth oedd canlyniad yr asesiad ***Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol oruchwylio'r asesiadau hyn yn well er mwyn bod yn hyderus ei fod yn bodloni ei gyfrifoldebau'n llawn yn unol â gofynion Rhan 3 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (asesu a diwallu anghenion unigolion).***<br><br>GWASANAETHAU PLANT<br>**Pobl – Llais a Rheolaeth – Meysydd i'w gwella**<br>**3.14** Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc anabl aros am gyfnodau hir i gael egwyl fer dros nos mewn darpariaeth breswyl. Nod yr awdurdod lleol yw darparu math arall o gymorth yn y cyfamser, er enghraifft drwy daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, ***mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu llety i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol ac sy'n bodloni anghenion y plant. Mae hyn yn unol â Chod Ymarfer 6 (Plant yn Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).***<br><br>**3.15** O ganlyniad i natur fregus y gweithlu gofal cymdeithasol, mae'r gweithwyr cymdeithasol y mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â nhw yn newid. Caiff plant eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd yn hytrach na gweithiwr dynodedig ar adegau. Mae newid gweithwyr cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd i blant feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Clywsom ni gan un person ifanc ei fod yn ymwybodol y bydd ei weithiwr cymdeithasol yn newid yn fuan. Mae rhieni'n gorfod ailadrodd eu straeon a'u safbwyntiau i weithwyr | | | | cymysgedd o adolygiadau adweithiol ac wedi'u cynllunio yng nghartrefi pobl ac mewn lleoliadau gofal.<br><br>COG: OREN<br>**A8.5** Ystyriwyd y posibilrwydd o roi mynediad i Weithwyr Cymdeithasol Iechyd Meddwl Cyngor Sir y Fflint i system Paris, fodd bynnag, byddai ganddo oblygiadau sylweddol ar adnoddau.<br><br>Mae ychwanegu defnyddwyr gwasanaeth i'r system yn dasg sy'n digwydd unwaith yn unig ac mae'n dasg sylweddol ond mae'n gyraeddadwy. Byddai rheoli hyn yn barhaus yn arwain at ddyblygu gwaith yn sylweddol i ymarferwyr sy'n gorfod cofnodi gwybodaeth ar 2 system. Nid yw hyn yn ymarferol.<br><br>Byddai caffael system newydd yn lle system Paris yn cynnwys swyddogaeth i gysylltu â systemau eraill.<br><br>COG: GWYRDD<br>**A8.6** Mae gwahanol ddewisiadau wedi'u hystyried er mwyn i unigolion penodol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol gael mynediad at system Charity Log GOGDdC er mwyn gallu cael mynediad at Asesiadau Anghenion Gofalwyr yn ôl yr angen. Mae unigolion wedi'u nodi a rhoddwyd mynediad iddynt.<br><br>COG: OREN<br>**A3.14** Diweddaru a chyhoeddi Strategaeth Gomisiynu a Lleoli ddiwygiedig sy'n nodi anghenion lleoli, a bwriadau lleoli/comisiynu awdurdodau lleol yng nghyd-destun |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | cymdeithasol hefyd. O ganlyniad i'r newid mewn ymarferwyr, gallai fod oedi o ran cymorth, a gallai hefyd effeithio ar y gallu i oruchwylio sefyllfa plant a phobl ifanc. ***Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu cyson, digonol, cymwysedig a medrus i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, a dylai ystyried strategaeth ymadael er mwyn rhoi'r gorau i ddibynnu ar y tîm asiantaeth a reolir y cafodd ei gomisiynu.*** | | | | polisi a fframwaith deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer tynnu elw o ofal cymdeithasol plant.<br><br>Cyfarfu â Chomisiynwyr yn Wrecsam i drafod dull ar y cyd o ddatblygu gwasanaethau seibiant. Maen nhw'n awyddus i weithio mewn partneriaeth â ni ar ddewisiadau newydd i ddarparu seibiant ar draws y ddwy sir.<br><br>Mae nodi'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau newydd yn her hirdymor ac mae gwaith ar hyn yn parhau. |
| | **Lles – Meysydd i'w gwella**<br>**5.6** Ceir awgrym na chaiff y trothwy ar gyfer niwed sylweddol ei gymhwyso'n gyson bob amser wrth ystyried tynnu plant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Clywsom ni y gallai hyn fod o ganlyniad i gysyniad amhriodol fod cadw enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ffordd o sicrhau gwasanaethau cymorth parhaus i'r plentyn a'i deulu. ***Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhannu canllawiau yn ehangach â phartneriaid a budd-ddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth gyson o'r trothwyon a'r protocolau rhannu gwybodaeth.***<br><br>**5.7** Caiff risgiau eu hystyried mewn modd priodol, a chaiff plant a theuluoedd eu trosglwyddo i'r gwasanaeth priodol mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd sy'n destun gweithdrefnau amddiffyn plant yn wynebu oedi gan na chaiff ymholiadau eu cwblhau'n brydlon bob amser. Nid yw'r penderfyniad ar ôl cwblhau ymholiad Adran 47 bob amser yn glir. ***Mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau, ar ôl i ymholiad amddiffyn plant ddod i ben mewn modd amserol, y caiff y camau nesaf eu cofnodi mewn ffordd eglur a rhesymegol mewn cysylltiad â'r penderfyniadau dan Adran 3 Rhan 1 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.*** | | | | COG: **GWYRDD**<br><br>**A3.15** Symud ymlaen drwy ffrydiau gwaith Prosiect Gwydnwch y Gweithlu, gan edrych ar a) gwella ein llwyddiant o ran recriwtio a b) beth ellir ei wneud i gadw ein gweithlu presennol.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch a oedd yn edrych ar recriwtio, cadw a gwydnwch yn y gweithlu bellach wedi'i gwblhau.<br><br>Cynhaliwyd ymgyrchoedd hysbysebu a ddangosodd rywfaint o lwyddiant wrth ddenu ymgeiswyr.<br><br>Mae ffrydiau gwaith i wella ein llwyddiant wrth recriwtio bellach yn mynd rhagddo fel yr arfer a hynny'n barhaus.<br><br>Mae ffrydiau gwaith parhaus ar hyn o bryd yn cynnwys:<br>• Ystyried yr hysbysebion i'w gwneud nhw'n fwy deniadol, cadarnhaol a gwell. Ystyried Cyswllt Cyntaf yn |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **5.8** Gan na chaiff ymholiadau Adran 47 eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol bob amser, mae hyn yn effeithio ar y gallu i wneud penderfyniadau amserol ynghylch a ddylid cynnwys enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. ***Pan benderfynir bod plentyn yn profi niwed neu'n wynebu risg o brofi niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynhadledd amddiffyn plant ei threfnu ymhen 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth/ cyfarfod strategaeth, neu'r drafodaeth/ cyfarfod strategaeth diwethaf (os cafwyd mwy nag un) a arweiniodd at gychwyn yr ymholiad Adran 47.***<br><br>**5.9** Caiff rhai cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu harwain gan y gwasanaeth, ac mae'r pwyslais ar gydymffurfiaeth yn hytrach na chanlyniadau. Ni chaiff cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth eu diweddaru fel mater o drefn ar ôl cyfarfodydd y grŵp craidd. Cydnabyddir bod yr hyfforddiant diweddar a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau i weithwyr cymdeithasol. ***Dylai cynllun amddiffyn gofal a chymorth amlinellol a luniwyd yn y gynhadledd gyntaf gael ei ddatblygu i greu cynllun manylach yng nghyfarfod cyntaf y grŵp craidd cyntaf fel y nodir yn GDC. Dylai grwpiau craidd dilynol fynd ati'n benodol i adolygu cynnydd o ran y canlyniadau ar gyfer diogelwch y plentyn. Dylai arweinwyr sicrhau bod gan ymarferwyr systemau a safonau clir ar gyfer datblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.***<br><br>**5.10 -** Gwelsom ni enghreifftiau fod datgeliadau gan yr heddlu am gefndir troseddol unigolyn, lle ceir risg bosibl i blentyn, wedi cael eu hystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo diogelwch | | | | gyntaf, lle mae gennym ni rai aelodau o staff asiantaeth. Ystyried gwneud yr hysbysebion yn fwy deniadol a diddorol.<br>• Mae rheolwyr yn gweithio gyda TDG i roi profiad o wasanaethau Plant i fyfyrwyr trwy gylchdroadau byr i'w cefnogi nhw i archwilio'r gwasanaeth fel cyfle gyrfaol. Mae hyn wedi arwain at lwyddiant wrth i rai myfyrwyr ddewis gwasanaethau plant fel llwybr gyrfa.<br><br>Mae'r polisi Trosglwyddo wedi'i adolygu, mae wedi'i roi ar waith ac mae'n cael ei gymhwyso'n gyson. Mae ymweliadau trosglwyddo yn digwydd a fydd yn helpu i drosglwyddo plant a theuluoedd yn ddidrafferth.<br><br>Yn fewnol, cafwyd adborth a oedd yn nodi y gallai'r broses hon gael ei gwella o hyd. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod diwethaf y rheolwyr. Mae'r rheolwyr tîm yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi eto i ddatrys y problemau mewnol presennol.<br><br>Treialu proffiliau un dudalen mewn Gwasanaethau Plant i sicrhau nad oes angen ailadrodd. Mae proffiliau un dudalen wedi'u treialu yn ein cartrefi plant mewnol ac mae hyn yn mynd rhagddo.<br><br>Mae gan y Tîm Sefydlogrwydd a Llwybrau'r ddogfen 'Dyma fi' ac mae'r grŵp wedi cydnabod y flaenoriaeth o gyflwyno hyn ar gyfer pob plentyn.<br><br>Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i benderfynu a ddylid cyflwyno 'Dyma fi' yn lle proffiliau un dudalen yn y gwasanaeth. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | plant. Fodd bynnag, nid oedd y broses rhannu gwybodaeth bob amser wedi'i chwblhau mewn modd amserol. Nodwyd mai pwysau gwaith oedd yn gyfrifol am yr oedi mewn un enghraifft. ***Pan fo'r awdurdod lleol yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath, ac y cytunwyd y gall rannu gwybodaeth ag unigolion perthnasol er mwyn hyrwyddo diogelwch plentyn, mae’n rhaid gwneud hyn mewn modd amserol.***<br><br>Atal – Meysydd i’w gwella<br>**7.5** Nid yw plant sy'n niwroamrywiol neu sy'n aros am ddiagnosis o gyflwr niwroamrywiol posibl a'u rhieni bob amser yn cael gwybodaeth a chymorth prydlon a digonol. Mae oedi wrth roi cymorth yn effeithio ar eu lles. Cydnabyddir bod gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa hon ac aeth ati'n ddiweddar i ddatblygu ei wasanaeth er mwyn cyflwyno rôl benodol i ymateb i rieni/gofalwyr a rhoi cymorth iddyn nhw’n gynt, yn ystod y cyfnod pan fydd eu plant yn aros am asesiad/diagnosis o gyflwr niwroamrywiol. ***Dylai'r awdurdod lleol barhau i oruchwylio a monitro effeithiolrwydd y datblygiad hwn ac effaith hyn ar blant a theuluoedd.***<br><br>Partneriaeth – Meysydd i’w gwella<br>9.6 ***Mae’n rhaid i'r gwasanaethau plant gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r ddyletswydd i adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr adroddiad i ddechrau.*** Mae anghysondebau yn yr ymarfer cyfredol yn gysylltiedig â hyn.<br><br>9.7 ***Mae’n rhaid i'r gwasanaethau plant sicrhau y caiff asiantaethau priodol eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth yn unol â GDC, gan gynnwys ymarferydd sy'n llunio'r adroddiad ac ymarferwyr o wasanaethau addysg ac iechyd yn y gymuned os yn berthnasol, ymhlith eraill.*** | | | RAG: GREEN<br><br>**A5.6** Taflenni wedi’u lamineiddio wedi'u hailgyhoeddi (dewis digidol ar gael hefyd) yn cynnwys categorïau a diffiniadau. Hyfforddiant ar ddiffiniadau a chofrestru/dadgofrestru wedi'i gynnwys yn rhan o raglen hyfforddi'r gynhadledd a'r grŵp craidd dros 12 mis o fis Mai 2024.<br><br>Mae Cyfarwyddeb Ymarfer wedi’i chreu i wella’r gwaith o rannu gwybodaeth drwy Gyngor Sir y Fflint ac asiantaethau eraill. Bydd y Gyfarwyddeb yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda’r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a’r Canolbwynt Cymorth Cynnar i nodi'r gefnogaeth sydd ar gael os cewch chi eich dadgofrestru a bod cynllun cam i lawr clir ar waith cyn i’r trafodaethau am ddadgofrestru gael eu cynnal.<br><br>Trwy gyfarfodydd Goruchwylio, bydd rheolwyr yn sicrhau bod ystyriaeth drylwyr wedi'i rhoi a'i dogfennu i gefnogi sgyrsiau a phrosesau gwneud penderfyniadau yn ystod cyfarfodydd dadgofrestru. |
| | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A5.7** Cydnabyddir bod angen ailgynllunio ein prosesau a'n systemau ar ein system PARIS. Bydd hyn yn golygu gwahanu dogfennaeth asesu A47 a Rhan 3 ar system Paris er mwyn sicrhau mwy o eglurder o ran y broses a'r amserlenni.<br><br>Er mwyn gwella ein systemau llif gwaith a rheoli perfformiad yn llwyr, bydd angen i ni sefydlu system yn lle’r system PARIS bresennol. Bydd angen i ni weithio gyda’r tîm Caffael i sicrhau ein bod ni’n comisiynu system newydd sy'n cefnogi ymarfer ac sy’n sicrhau rheoli perfformiad effeithiol ac amserol. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **9.8** Roedd safbwyntiau a phrofiadau rhieni/gofalwyr plant anabl yn nodi y gellid gwella'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw ac y gallai fod yn fwy hyblyg. Gwnaethon nhw ddweud wrthym ni nad oedd y cymorth sy'n cael ei gynnig bob amser yn addas ar gyfer eu hanghenion nhw ac anghenion eu plant. ***Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn cael ei gynnwys fel partner llawn wrth asesu i ba raddau y gall gyflawni ei ganlyniadau personol, neu gyda chymorth pobl eraill sy'n fodlon rhoi'r cymorth hwnnw; neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned sydd ar gael iddo.*** | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A5.8** Cytunwyd ar broses ar gyfer y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, gan gynnwys cofnodi penderfyniadau, sy'n cydymffurfio â'r GDC. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn gysylltiedig â cham gweithredu 5.7. Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (sy'n cael ei alw'n Ganolbwynt Diogelu erbyn hyn) wedi'i roi ar waith. Mae map proses wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei ddefnyddio. |
| | **9.9** Gwelsom ni enghreifftiau o blant a oedd yn gadael gofal yn gorfod nodi eu bod nhw'n ddigartref er mwyn cael cymorth tai. Dywedodd ymarferwyr hefyd fod llety i bobl ifanc yn her barhaus ac yn faes i'w wella. Ceir dewisiadau mwy hirdymor clir i gefnogi pobl ifanc yn gyffredinol â chymorth tai, yn unol â'r amcanion lles yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Un enghraifft yw cynllun strategol wedi'i lywio gan ddull amlasiantaeth, er mwyn creu canolbwynt digartrefedd i bobl ifanc a fydd yn cynnig llety yn ogystal â gwasanaethau cymorth. ***Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu ei raglen sy'n sicrhau dewisiadau tai priodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl 16-17 oed perthnasol.*** Dylid cynnig dewisiadau hirdymor a thymor byr, a phan fo hynny'n bosibl, osgoi'r angen i unigolion sy'n gadael gofal ddatgan eu bod nhw'n ddigartref. | | | | COG: OREN<br><br>**A5.9** Established a TAF group to investiSefydlu grŵp Tîm o Amgylch y Teulu i ymchwilio a rhannu'r hyn a ddysgwyd.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi gweithiwr a'i swydd yw cofnodi yng nghyfarfodydd y grŵp craidd, teipio'r hyn sydd wedi'i gofnodi, a'u rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r grŵp craidd gael ei gynnal. Pan fydd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cytuno eu bod nhw'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r cyfarfod.<br><br>Mae'r cynllun amddiffyn Gofal a Chymorth gwreiddiol wedi'i rannu ag aelodau'r grŵp craidd i gyd yn y grŵp craidd cychwynnol. Caiff hyn ei gofnodi yn y cofnodion ac yna caiff unrhyw newidiadau neu ddiweddariad i'r cynllun eu cofnodi a'u rhannu. Caiff y rhain wedyn eu copïo i gofnodion y grŵp craidd nesaf a'u rhannu ar sail dreigl fel bod unrhyw gamau gweithredu wedi'u cwblhau neu gamau gweithredu newydd i'r |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cynllun yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn galluogi'r cynllun i fod yn ddogfen fyw gan ddangos cynnydd a heriau o fewn y cynllun amddiffyn Gofal a Chymorth. Yna caiff y rhain eu cofnodi yn ffeil y plentyn fel bod cynllun clir o siwrnai’r teulu tra eu bod nhw’n rhan o’r cynllun.<br><br>Yna caiff gweithwyr proffesiynol eraill sy’n dechrau ymwneud â theuluoedd, yn sgil gwaith a nodwyd wrth lunio cynllun, eu gwahodd i ddod i grwpiau Craidd i sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn amserol ac yn gywir. Os na allan nhw fod yn bresennol, gofynnir am adroddiad gan y gweithiwr a nodwyd.<br><br>Mae hyfforddiant diweddar mewn grwpiau Craidd wedi'i gyflwyno ac mae’n cael ei gyflwyno gan staff yr ALl i weithwyr yr ALl a gweithwyr proffesiynol allanol eraill sy'n mynd i grwpiau craidd yn rheolaidd.<br><br>Gofynnwyd am gyngor ac arbenigedd ar weithredu’r “Model Amddiffyn Plant Effeithiol” ac mae’r gwaith o’i weithredu yn parhau.<br><br>Adolygu a diwygio fformat dogfennau'r Cynllun Diogelu. Ystyriwch sut mae'r ddogfennaeth hon yn dangos sut y bydd bywyd bob dydd y plentyn yn newid trwy'r cynllun a nodwyd. Bydd Adroddiadau Cynhadledd Achosion Amddiffyn Plant yn cael eu haddasu ar ôl cwblhau'r rhaglen ECP i ymgorffori'r camau i’r model newid. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A5.10** Sefydlu amserlenni penodol i ddiffinio ein disgwyliad o weithredu mewn modd “amserol”. Cafwyd sgyrsiau gyda'r heddlu a chytunwyd y bydd geiriad y datgeliad yn cael ei ddarparu o fewn 24 awr. Er mwyn cydnabod unrhyw oedi gan asiantaethau eraill, rydym ni wedi cytuno ar amserlenni a phroses ar gyfer uwchgyfeirio. |
| | | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A7.5** Mae cais llwyddiannus am gyllid y Rhaglen Gwelliant Niwroamrywiaeth wedi arwain at gyflogi gweithiwr cymdeithasol newydd sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Ionawr 2024 i gefnogi pobl 16–25 sy’n Niwroamrywiol yn benodol, ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r swydd hon wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cael adborth cadarnhaol iawn. Monitro effeithiolrwydd y swydd hon a'r effaith y mae'n ei chael ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Defnyddio’r dystiolaeth o hyn i gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer swyddi eraill i gefnogi grwpiau oedran eraill. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad ar gyfer y swydd hon yn cadarnhau ei bod yn cefnogi cyflawni canlyniadau. Bydd yn cael ei fonitro yn unol ag amodau'r Grant ar gyfer y dyfodol. |
| | | | | | COG: GWYRDD<br><br>**A9.6** Mae llinell uniongyrchol i gydweithwyr addysg allu rhoi gwybod am atgyfeiriadau diogelu, ceisio |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyngor cyn atgyfeiriad diogelu posibl, yn ogystal ag i gael adborth yn dilyn atgyfeiriad diogelu, bellach wedi'i sefydlu.<br><br>Mae rhaglen dreigl bellach ar waith. Mae hyfforddiant ar Grwpiau Craidd wedi uno â Chynadleddau Achosion Amddiffyn Plant i greu diwrnod llawn o hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei gyflwyno ar sail amlasiantaeth ac mae llawer o ysgolion yn mynd i’r hyfforddiant erbyn hyn.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu hyn yn gyson. Mae'r panel Diogelu Corfforaethol yn galluogi arweinwyr portffolio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau a'r llwybrau atgyfeirio.<br><br>Mae grwpiau cyflawni'r byrddau diogelu rhanbarthol hefyd yn rhoi'r un cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i asiantaethau partner.<br><br>Mae mynd i hyfforddiant Addysg DSP lefel 3 gan gynrychiolwyr y Tîm Cyswllt Cyntaf Plant a Diogelu yn sicrhau bod arweinwyr addysg yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y llwybrau atgyfeirio cywir.<br><br>Mae llinell uniongyrchol i gydweithwyr addysg roi gwybod am atgyfeiriadau diogelu, holi am gyngor cyn gwneud atgyfeiriad diogelu posibl, a chael adborth yn dilyn atgyfeiriad diogelu wedi'i sefydlu, ac mae hyn wedi profi i fod yn amhrisiadwy.<br>Mae templed wedi'i greu er mwyn anfon adborth at atgyfeirwyr priodol ac mae hwn ar waith ac yn cael ei ddefnyddio. |

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | COG: GWYRDD<br>**A9.7** Parhau i weithio i gynnwys asiantaethau mewn trafodaethau, pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol, yn unol â Chynllun Gofodol Cymru. Mae sefydlu'r Canolbwynt Diogelu yn cefnogi'r datblygiad hwn. |
| | | | | COG: GWYRDD<br>**A9.8** Mae gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol wedi'i hailddosbarthu i staff i sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hyblygrwydd Taliadau Uniongyrchol.<br><br>Cymorth i uwchsgilio asiantaethau cymorth gofalwyr newydd yn y Trydydd Sector i sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o brofiad â gofalwyr plant ag anableddau. Mae hwn yn amcan mwy hirdymor a pharhaus o ganlyniad i'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chaffael gwasanaethau newydd. |
| | | | | COG: GWYRDD<br>**A9.9** Mae ymchwilio i ehangu gwasanaethau Llety â Chymorth - Datrysiadau Lleol yn parhau fel ffrwd waith barhaus.<br><br>Mae cysylltiadau wedi'u gwneud â bwrdd Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Sir y Fflint a chamau gweithredu sy'n symud ymlaen drwy'r ffrwd waith hon.<br><br>Sicrhau bod Cymorth Tai a Gwasanaeth Digartrefedd yn cael eu hysbysu'n brydlon yn rhan o gynllun llwybr i unigolion 16 oed a hŷn er mwyn gallu cynllunio ymlaen llaw. Mae angen i hyn fod yn gyson ar gyfer pob unigolyn gan gynnwys unigolion sydd ag anghenion lefel isel/dim anghenion). Mae adroddiad yn cael ei gynhyrchu ar system Paris ar hyn o bryd i wirio a oes penblwyddi rhai unigolion ymhen 12 mis a sicrhau bod cynlluniau ar waith. |

# Estyn

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau arolygu gan Estyn ynglŷn â Sir y Fflint fel awdurdod yn 2023/24 ac felly nid oes diweddariad ar y cynnydd

# Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

| Teitl / Dyddiad yr Adroddiad | Argymhellion / Sylwadau | Gwybodaeth Adrodd | | Ymateb a COG 2023/24 (os yn berthnasol) | Y Wybodaeth Ddiweddaraf a COG 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Gwybodaeth 2022-23<br><br>Gorffennaf 2023 | **Dolen at yr adroddiad:** https://ico.org.uk/media/about-the-ico/documents/4025864/annual-report-2022-23.pdf<br><br>**Argymhellion/Cynigion ar gyfer gwella:**<br><br>Dim. | Cabinet:<br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol | **COG:** Amherthnasol |